


Ail Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Bwrdeistref
Sirol Caerffili 2020-2035

# Cynllun Cyn-Adneuo
## (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig)

***Ionawr 2025***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

# Cynllun Cyn-Adneuo

# (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig)

# Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

This document is available in english, and in other languages and formats on request.

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru "adolygu'n barhaus materion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu gynllunio ei datblygiad". Gwneir hyn drwy gynlluniau datblygu a baratoir gan bob awdurdod cynllunio lleol ar gyfer eu hardal nhw. Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 (y CDLl a fabwysiadwyd) yw'r cynllun datblygu presennol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ac er bod diwedd ei gyfnod cynllunio eisoes wedi mynd heibio, bydd yn parhau mewn grym nes y bydd CDLl newydd yn ei ddisodli.

1.2 Dechreuodd y Cyngor weithio ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili Newydd hyd at 2035 (y cyfeirir ato o hyn allan fel 2RLDP) ym mis Hydref 2020. Mae'r cefndir sydd wedi arwain at y penderfyniad i ddechrau adolygu'r CDLl a fabwysiadwyd wedi'i amlinellu yn Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 (yr Adroddiad Adolygu). Bydd yr 2RLDP yn cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2035. Pan gaiff ei fabwysiadu, yr 2RLDP fydd cynllun defnyddio tir statudol y Cyngor a bydd yn amlinellu strategaeth defnyddio tir y Cyngor i gyflawni datblygiad cynaliadwy a datblygu cymunedau cryf a gwydn sy'n gwella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

1.3 Bydd angen i'r 2RLDP wneud y canlynol:

- Cyflawni datblygiad cynaliadwy yn seiliedig ar egwyddorion creu lleoedd cadarn;
- Datblygu polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ymhellach, a chyfrannu ato a lunnir gan Lywodraeth Cymru;
- Cyfleu uchelgeisiau lleol ar ran y Fwrdeistref Sirol, yn seiliedig ar weledigaeth sydd wedi'i lywio gan randdeiliaid allweddol ac Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor;
- Mynegi yn nhermau defnyddio tir amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant) a blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent drwy ei Gynllun Llesiant;
- Darparu sail am benderfyniadau rheoli datblygu sy'n rhesymegol a chyson;

- Llywio twf a newid, wrth ddiogelu amrywiaeth, cymeriad ac amgylcheddau sensitif lleol; a
- Dangos pam, sut a ble y bydd newid dros gyfnod y cynllun.

1.4 Agwedd allweddol ar yr 2RLDP fydd nodi natur, graddfa a dosraniad gofodol y newid sy’n ofynnol er mwyn diwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol am gyfnod y cynllun.

1.5 Ymgynghorodd y Cyngor ar ei Gynllun Cyn-Adneuo cyntaf ar gyfer y 2RLDP ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Daeth gwrthwynebiadau i'r cynllun i law gan Lywodraeth Cymru o ran cydymffurfio mewn perthynas â neilltuo Safle Strategol, y dull rhanbarthol a chyd-destun twf, a'r dull ar sail natur. Rhoddir sylw i'r gwrthwynebiadau hyn yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (ICR) ar yr ymgynghoriad Cyn-Adneuo cyntaf. O ganlyniad i'r gwrthwynebiadau hyn, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth Cyn-Adneuo. O ystyried bod newidiadau wedi eu gwneud i'r strategaeth (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig) mae'r Cyngor yn cymryd cam yn ôl yn y broses ac yn cynnal ail ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn-Adneuo gyda'i ddiwygiadau.

1.6 Mae’r 2RLDP yn cael ei baratoi yn unol â’r Cytundeb Cyflawni diwygiedig (CC diwygiedig) y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ar 18 Hydref 2024, sy’n amlinellu’r amserlen ar gyfer paratoi’r 2RLDP a’r ymagwedd at ymgysylltu ac ymgynghori â’r gymuned drwy gydol y broses paratoi cynllun. Y cyfnodau allweddol wrth baratoi’r cynllun yw:

- Paratoi ail gam Cyn-Adneuo'r 2RLDP gan gynnwys y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig – mis Gorffennaf i fis Hydref 2024
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig – mis Ionawr/Chwefror 2025
- Paratoi'r 2RLDP Adneuo Diwygiedig – mis Ionawr i fis Hydref 2025
- Ymgynghoriad ar y 2RLDP Adneuo Diwygiedig – mis Ionawr/Chwefror 2026
- Cyflwyno’r 2RLDP Diwygiedig i Lywodraeth Cymru – mis Tachwedd 2026
- Ymchwiliad Annibynnol – mis Ionawr/Chwefror 2027
- Mabwysiadu – mis Awst 2027

## Strwythur Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035: Cynllun Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir)

1.7 Mae’r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi’i hamlinellu yn adrannau 9:

- Adran 1: Rhagarweiniad - Mae hon yn cynnig crynodeb o’r broses ar gyfer paratoi’r 2RLDP, y cam a gyrhaeddwyd a’r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.
- Adran 2: Cyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol - Mae hon yn cynnig cefndir deddfwriaethol a pholisi y mae’r Strategaeth a Ffefrir wedi’i pharatoi yn unol ag ef.
- Adran 3: Materion Defnyddio Tir Allweddol - Mae hon yn darparu crynodeb o’r materion defnyddio tir a chysylltiedig allweddol y bydd yn rhaid i’r 2RLDP fynd i’r afael â nhw.
- Adran 4: Y Weledigaeth Strategol - Mae hon yn amlinellu Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion ar gyfer yr 2RDLP.

- Adran 5: Opsiynau Twf Strategol - Mae hon yn amlinellu'r boblogaeth a'r opsiynau tai a chyflogaeth sy'n cael eu hystyried ar gyfer yr 2RLDP, gan nodi lefel y twf i'w ystyried yn yr 2RLDP.
- Adran 6: Hierarchaeth Anheddiad Cynaliadwy - Mae'r rhan hon yn amlinellu'r ymagwedd at ddosraniad gofodol y twf arfaethedig wedi'i ystyried ar sail cynaliadwyedd datblygu mewn perthynas ag aneddiadau ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.
- Adran 7: Y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig - Mae hon yn amlinellu'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ar gyfer yr 2RLDP a'r polisïau strategol a fydd yn cyflawni'r strategaeth.
- Adran 8: Y Camau Nesaf - Mae hon yn amlinellu'r hyn a fydd yn digwydd wedi cwblhau'r Ail Ymgynghoriad Cyn-Adneuo ar y Ddogfen Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.
- Adran 9: Atodiadau - Mae hon yn amlinellu cyfres o atodiadau a fydd yn darparu gwybodaeth i gefnogi'r Strategaeth a Ffefrir.

## Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig?

1.8 Mae Rheoliad 15 Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015 (fel a ddiwygiwyd) (Rheoliadau CDLl) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) i'w cyhoedd eu harchwilio ac ymgynghori â nhw cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gynnwys ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w adneuo.

1.9 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn amlinellu Cynllun Cyn-Adneuo'r Cyngor ar gyfer rheoli newid ar draws y Fwrdeistref Sirol hyd at 2035. Mae'n cynnig cyd-destun strategol ar gyfer paratoi polisïau, gweithdrefnau a dyraniadau defnyddio tir mwy manwl a fydd yn cynorthwyo wrth gyflawni datblygu mwy cynaliadwy a meithrin cymunedau mwy gwydn. I grynhoi, mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn amlinellu'r canlynol:

- Materion defnyddio tir allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol;
- Y Weledigaeth, y Nodau a'r Amcanion sy'n ymateb i'r materion, heriau a chyfleoedd allweddol;
- Y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ar gyfer yr 2RLDP, gan gynnwys graddfa twf poblogaeth y dyfodol, tai a swyddi a'r dosraniad gofodol eang ar gyfer twf;
- Fframwaith polisi strategol a fydd yn cyflawni/gweithredu'r strategaeth ac yn llywio camau dilynol gwaith paratoi'r 2RLDP.

1.10 Rhaid nodi bod y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn nodi lefel dosraniad gofodol eang y twf, ond nid yw'n nodi unrhyw ddyraniadau/dynodiadau sy'n benodol i safleoedd ar y cam hwn. Caiff hyn ei wneud fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Adneuo pan fydd cytundeb ar y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig. Dim ond safleoedd sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig fydd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y Cynllun Adneuo. O ganlyniad, NID yw'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cynnwys:

- Safleoedd a neilltuwyd, oni bai y cynigir nodi unrhyw safleoedd strategol, sy'n safleoedd o bwys a graddfa o'r fath y byddant yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r strategaeth yn ei chyfanrwydd;
- Dynodiadau a ffiniau aneddiadau manwl;
- Polisïau rheoli datblygiad manwl i reoli datblygiad;

- Gwerthusiadau manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol.

1.11 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi cael ei llywio gan gyfres o seminarau ymgynghori sydd wedi rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol ac aelodau etholedig roi mewnbwn. Mae hefyd wedi'i diwygio i ystyried yr ymgynghoriad cyntaf ar y Cynllun Cyn-Adneuo ym mis Hydref/Tachwedd 2022.

1.12 Mae camau'r broses baratoi wedi'u crynhoi yn y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig, ac mae'r Materion Allweddol wedi'u hystyried o dan Adran 3, y Weledigaeth a'r Amcanion yn Adran 4, y Strategaeth Ofodol yn Adran 5 a Pholisïau Strategol yn Adran 7.

1.13 Mae sawl dogfen dechnegol a gweithdrefnol sydd wedi cael eu paratoi sy'n cynnig sylfaen tystiolaeth sydd wedi cael ei llywio gan y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig. Mae rhestr o'r dogfennau hyn, ynghyd â chrynodeb o'r hyn maent yn ei gynnwys a'u rôl yn y broses wedi'i hamlinellu yn Atodiad 2 y ddogfen hon.

## Yr Ymgynghoriad

1.14 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn destun cyfnod ymgynghori statudol 6 wythnos lle gall unrhyw un gyflwyno sylwadau arni drwy gyflwyno eu sylwadau'n ysgrifenedig i'r Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

1.15 Cyhoeddwyd y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig hon yn ffurfiol ar gyfer sylwadau ar 15 Ionawr 2025 a bydd y cyfnod ymgynghori yn cau ar 26 Chwefror 2026. Rhaid cyflwyno sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig a'i dogfennau ategol i'r Cyngor erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Dylid nodi ni chaiff unrhyw sylwadau a dderbynnir wedi'r dyddiad cau eu derbyn na'u hystyried.

1.16 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig a'i dogfennau cefnogi ar gael i'w harchwilio ar wefannau'r Cyngor, ac mae copïau o'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi cael eu rhoi ym mhob un o'r llyfrgelloedd ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

1.17 Gellir cyflwyno sylwadau am y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig drwy wefan y Cyngor.

# 2 Cyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyflwyniad eang i ardal y Cynllun, gan amlinellu nodweddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd yn amlinellu cyd-destun ar gyfer y cynllun ac, o ganlyniad i'r gofyniad i'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ystyried amrywiaeth eang o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill, mae hefyd yn amlinellu'r cyd-destun ehangach ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylid nodi, fel gofyniad statudol, mae'r Adroddiad Cwmpasu Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (yr Adroddiad Cwmpasu) yn amlinellu rhestr o bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau sy'n berthnasol i'r 2RLDP.

## Cyd-destun Daearyddol

2.2 Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys ardal sy'n ymestyn o Bowys a Pharc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog i'r gogledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae ganddi ffiniau i'r gorllewin â Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ac i'r dwyrain â Blaenau Gwent a Thorfaen ac felly mae wrth wraidd Cymoedd De Cymru a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd.

2.3 Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys 3 phrif gwm, sef Rhymni, Sirhywi ac Ebwy, gan orchuddio ardal o oddeutu 28,000 ha a chyfuniad o gymunedau trefol, hanner-trefol a gwledig. Mae gan y Fwrdeistref Sirol y bumed boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol

yng Nghymru, ac mae ganddi boblogaeth o oddeutu 176,437 o bobl (brasamcan canol y flwyddyn, 2023). Serch hyn, mae 75% o'r Fwrdeistref Sirol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddiaeth a choedwigaeth (cefn gwlad/gwledig). Mae ganddi economi sy'n ehangu ac amgylchedd deniadol ac mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol, ynghyd â mynediad da i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gorsafoedd metro ar reilffyrdd Cwm Rhymni a Glynebwy, ond hefyd rhwydwaith o lwybrau teithio llesol sy'n cynyddu mynediad ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Mae gan de'r Fwrdeistref Sirol gysylltiadau da i briffordd yr M4, ac i ogledd y Fwrdeistref Sirol, mae'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd gyda'i chysylltiadau rhagorol â Chanolbarth Lloegr a Gorllewin Cymru/Iwerddon.

## Cyd-destun y Polisi

2.4 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi cael ei pharatoi yng nghyd-destun cyfres amrywiol iawn o ddogfennau polisi a deddfwriaethol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r dogfennau hyn yn pennu'r paramedrau y mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi'i pharatoi ar eu sail a hefyd yn pennu cyd-destun y polisi y mae angen i'r cynllun gydymffurfio ag ef yn gyffredinol. Mae prif elfennau'r cyd-destun hwn a'u perthnasoedd i'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi'u hystyried isod.

## Cyd-destun Cenedlaethol

2.5 Mae'r dogfennau sy'n cael eu hystyried yn y rhan hon yn ddogfennau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant)

2.6 Mae'r Ddeddf Llesiant yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Mae'n anelu at wneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru mewn perthynas â saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

2.7 Mae'r Ddeddf Llesiant yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith ac yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, er mwyn 'gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw'. Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr 2RLDP ac mae'n rhan annatod o'r Asesiad o Gynaliadwyedd Integredig (AGI) sy'n cael ei baratoi fel rhan o'r broses.

2.8 Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau drwy fabwysiadu'r pum ffordd o weithio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystyried y tymor hir;
- Helpu i atal problemau rhag codi neu waethygu;

- Cymryd ymagwedd integredig;
- Cymryd ymagwedd gydweithredol; ac
- Ystyried a chynnwys pobl o bob oedran a chefndir.

2.9 Mae'r pum ffordd o weithio wedi creu rhan annatod o ddatblygiad yr 2RLDP a byddant yn parhau i'w creu.

## Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.10 Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) i ryw ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflawni diwygiadau i system gynllunio Cymru, er mwyn sicrhau ei bod hi'n deg, yn gadarn ac yn caniatáu datblygiad. Mae'r Ddeddf Gynllunio yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r ymagwedd a arweinir gan y cynllun at gynllunio. Mae'r Ddeddf Gynllunio hefyd yn cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a Chynlluniau Datblygu Strategol (SDP) sy'n cael eu trafod mewn mwy o fanylder isod.

2.11 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) ym mis Chwefror 2021. Fe wnaeth Cymru'r Dyfodol ddisodli Cynllun Gofodol Cymru, sy'n cael ei ystyried ymhellach ym mharagraffau 2.22 i 2.24.

2.12 Mae'r Ddeddf Gynllunio hefyd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol â'r bwriad o ddarparu fframwaith gofodol rhanbarthol ar gyfer datblygu yn y dyfodol a'r defnydd o dir mewn rhanbarth penodol. Mae paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer y rhanbarth yn gyfrifoldeb ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, sy'n cael ei greu ar hyn o bryd. Mae gwaith paratoi'r 2RLDP yn mynd rhagddo o flaen paratoi'r CDS, er y bydd yr holl ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau ei fod yn cydymffurfio mewn ffordd gyffredinol â'r CDS sy'n dod i'r amlwg, wrth iddo gael ei baratoi. Fodd bynnag, bydd angen adolygiad o'r 2RLDP pan fydd y CDS wedi cael ei fabwysiadu.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.13 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Deddf yr Amgylchedd) yn gosod deddfwriaeth ar gyfer ac yn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynus, gan ddarparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y caiff adnoddau naturiol eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, a bydd hyn yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys dyletswydd fioamrywiol uwch sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

2.14 Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd wedi'i chyflwyno gofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lunio Datganiadau Ardal. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i chynnwys yn Natganiad Ardal De-ddwyrain Cymru ac mae'n rhan o'r sylfaen tystiolaeth sy'n sail i'r 2RLDP.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2.15 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) (y Ddeddf Teithio Gweithredol) yw hyrwyddo cerdded a beicio fel ffordd ddeniadol o deithio ar gyfer teithiau pwrpasol (h.y. mynediad i'r gwaith, ysgol neu siopau a gwasanaethau). Ei nod yw gwreiddio trawsnewidiad parhaol i sut y caiff datblygiadau eu cynllunio i ymgorffori isadeiledd cerdded a beicio o'r dechrau yn ogystal ag annog newid ymddygiad tymor hir.

2.16 Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn cynnig darpariaeth ar gyfer mapio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig drwy Fapiau Rhwydwaith Teithiol Llesol (ATNM). Mae ATNM Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhan o sylfaen tystiolaeth 2RLDP. Mae'r Ddeddf Teithio

Llesol hefyd yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflawni gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn ar lwybrau a chyfleusterau teithio llesol i wella cyfleoedd i gerddwyr a beicwyr wneud teithiau ystyrlon heb ddibynnu ar y car.

## Cymru Fwy Cyfartal – Deddf Cydraddoldeb y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2010 (2021)

2.17 Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau’r anghydraddoldebau sy’n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau megis ‘penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion’. Mae’r Ddyletswydd yn ei gwneud hi’n ofynnol rhoi ‘Sylw Dyledus’ i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r Ddyletswydd yn berthnasol i ddatblygu polisi strategol ac felly mae’n berthnasol i’r 2RLDP. Mae’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cwympo dan gampws y ACI a gynhelir mewn perthynas â’r 2RLDP ac mae canfyddiadau’r arfarniad wedi’u hamlinellu yn y dogfennau ACI.

## Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12(2024)

2.18 Mae Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisïau cynllunio defnyddio tir a nodau datblygu cynaliadwy i Gymru, wedi’u hadolygu i gyfrannu tuag at nodau llesiant statudol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae PCC yn pennu rhagdybiaeth er budd datblygu cynaliadwy, gan ystyried ymagwedd a arweinir gan gynllun i fod y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy’r system gynllunio. Cyflwynodd Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru newidiadau i Bennod 6 – Lleoedd Unigryw a Naturiol, a’r un amlycaf oedd y ddyletswydd i sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth wrth ddatblygu. Mae gan PPC ffocws cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, sy’n cael ei ystyried i fod yn hanfodol i gyflawni lleoliadau cynaliadwy, cyflawni datblygu sy’n gymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynus. Mae creu lleoedd yn cael ei ystyried i fod yn ymagwedd gyfannol sy’n ‘ystyried cyd-destun, swyddogaeth a pherthnasoedd rhwng safle datblygu a’i gyffiniau ehangach’.

2.19 Ar lefel strategol, roedd pedair thema sy’n cyfrannu’n unigol at greu lleoedd:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol;
- Lleoedd Gweithredol a Chymdeithasol;
- Lleoedd Cynhyrchiol Llawn Mentergarwch;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol

2.20 Er mwyn llywio’r strategaeth ofodol, mae PPC yn ei gwneud hi’n ofynnol bod cynlluniau’n ‘cynnwys strategaeth ofodol sy’n cynnwys oes bywyd y cynllun sy’n sefydlu patrwm o ddatblygiadau sy’n gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol’. Mae’r cysylltiad rhwng nifer y cartrefi i'w darparu a chyfleoedd swyddi disgwyliedig yn cael ei bwysleisio’n glir, ynghyd â lleoliad unrhyw ddatblygiad newydd mewn perthynas ag isadeiledd presennol neu arfaethedig. Mae’n bwysig lleihau’r angen i deithio, lleihau dibynadwyedd ar geir preifat a chynyddu cyfleoedd i feicio, cerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ystyrir bod Cynlluniau Datblygu yn ‘darparu'r brif ffordd o gyflawni integreiddiad rhwng defnyddio tir a chynllunio trafnidiaeth.’

2.21 Mae PPC yn nodi proses chwilio a ddiffiniwyd yn dda i nodi tir datblygu. Dylid adolygu tir cynaliadwy a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu safleoedd wedi’u tanddefnyddio mewn aneddiadau presennol yn gyntaf cyn ystyried safleoedd tir glas cynaliadwy mewn

neu wrth ymyl aneddiadau. Yn y naill achos na'r llall, dylid hyrwyddo cydbwysedd eang rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth. Rhoddir pwysigrwydd sylweddol i ddatblygu lleoedd gweithredol a chymdeithasol ar ffurf cymunedau cydlynus â chysylltiad da.

## Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021) (Cymru'r Dyfodol)

2.22 Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnyddio tir yng Nghymru, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer darpariaeth isadeiledd newydd a thwf. Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar atebion i broblemau a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu lle mae angen twf ac isadeiledd sy'n genedlaethol bwysig a sut y gall y system gynllunio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eu cyflawni. Mae'n rhoi cyfeiriad ar gyfer CDSau a CDLlau ac yn cefnogi dynodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac yn cyd-fynd â'r PCC.

2.23 Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn pennu 11 canlyniad sydd, ar y cyd, yn ddatganiad o ble mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod ymhen 20 mlynedd. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Cymru lle gall pobl fyw....

- a gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach.
- mewn lleoedd gwledig sy'n fywiog gyda mynediad i gartrefi, swyddi a gwasanaethau
- mewn rhanbarthau unigryw sy'n myned i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
- mewn lleoedd lle mae'r Iaith Gymraeg yn ffynnu
- a gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n fan ffocws ac yn sbardun ar gyfer twf cynaliadwy
- mewn lleoedd lle mae ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hyrwyddo
- mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
- mewn lleoedd gydag isadeiledd digidol o'r radd flaenaf
- mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol ac yn lleihau llygredd mewn ffordd gynaliadwy
- mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
- mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n wydn o ran yr hinsawdd.

2.24 Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu 18 o bolisïau cenedlaethol sy'n berthnasol ledled Cymru, a 4 polisi rhanbarthol sy'n berthnasol ledled Rhanbarth y De-ddwyrain. Er y bydd angen mynd i'r afael â'r holl bolisïau yn yr 2RLDP, mae gan y polisïau canlynol bwysigrwydd penodol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig:

> Polisi 1 – Lle bydd Cymru'n tyfu
>
> Mae hwn yn diffinio Rhanbarth y De-ddwyrain fel ardal o dwf cenedlaethol, sy'n gofyn i awdurdodau'r rhanbarth greu darpariaeth ar gyfer lefel o dwf sy'n gymesur â statws ardal dwf genedlaethol. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu ym mholisi rhanbarthol 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, sy'n mynd i'r afael â gofynion datblygu'r rhanbarth.
>
> Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol.

Mae hwn yn amlinellu'r polisi cenedlaethol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol rhoi Creu Lleoedd wrth wraidd pob datblygiad.

Polisi 6 – Canol Trefi yn Gyntaf

Mae hwn yn amlinellu ymagwedd canol trefi yn gyntaf wrth ddarparu datblygiad o raddfa fawr.

Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy

Mae hwn yn atgyfnerthu dyhead Llywodraeth Cymru i ddarparu lefelau sylweddol o dai fforddiadwy, gan gynnwys drwy'r system gynllunio.

Polisi 8 – Llifogydd

Mae hwn yn cefnogi rheoli'r risg o lifogydd sy'n hwyluso twf economaidd a chenedlaethol cynaliadwy, gan hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar fyd natur a cheisio gwneud y mwyaf o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o isadeiledd rheoli'r risg o lifogydd.

Polisi 9 - Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd

Mae hwn yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a seilwaith gwyrdd a'r pwyslais cynyddol ar Fudd Net i Fioamrywiaeth.

Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol

Mae hwn yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella a chynyddu trafnidiaeth gynaliadwy ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau mewn ardaloedd twf cenedlaethol gynllunio twf i gynyddu'r cyfleoedd sy'n codi o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ogystal, mae Polisi Rhanbarthol 36 - Metro'r De-ddwyrain yn darparu sail polisi ranbarthol ar gyfer datblygu'r Metro ac ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar y Metro.

Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi

Mae hwn yn nodi tref Caerffili'n benodol fel lleoliad ar gyfer ystyried rhwydwaith gwresogi ardal.

Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ac Isadeiledd Cysylltiedig

Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Bwys Cenedlaethol

Mae Cymru'r Dyfodol wedi nodi Ardaloedd Cyn Asesu ar gyfer Ynni Gwynt, sy'n ardaloedd sydd wedi cael eu hasesu ar gyfer tirwedd ac effaith gyffredinol ac sy'n cael eu hystyried i fod yn dderbyniol, mewn egwyddor, ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy.

Polisi 34 – Lleiniau Glas yn Ne Cymru

Mae Polisi 34 yn cyflwyno'r gofyniad am lain las yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru i ogledd Caerdydd a Chasnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth. Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n ofynnol bod y lleiniau glas a'u cyffiniau yn cael eu sefydlu drwy CDS, sy'n golygu na all CDLl benderfynu ar ffiniau'r lleiniau glas yn eu hardal. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn cynnwys y gofyniad na ddylai awdurdodau lleol ganiatáu na dynodi datblygiad mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried ar gyfer lleiniau glas nes y caiff y CDS ei fabwysiadu. Er bod Cymru'r Dyfodol yn cynnwys cynllun rhanbarthol â nodiadau sy'n cynnwys ardal ar gyfer y llais las, nid yw'r cynllun hwn ar sylfaen arolwg ordnans ac nid yw ar raddfa ac felly nid oes modd dehongli'r ffiniau sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yn llythrennol. At hynny, un o'r ystyriaethau cyntaf sy'n cael ei rhoi wrth benderfynu ar ffiniau llain las yw sicrhau

bod gan yr aneddiadau y mae'r llain las yn effeithio arnynt ddigon o le i dyfu yn y dyfodol, gan fod lleiniau glas yn nodweddion parhaol nad oes modd eu newid neu eu diddymu'n hawdd unwaith cânt eu nodi.

## Adeiladu lleoedd gwell – Y system gynllunio'n darparu dyfodol gwydn a disglair: Creu Lleoedd ac adferiad Covid-19 (LlC, Gorffennaf 2020)

2.25 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo yn ystod cyfnod adferiad yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'n datgan y dylai'r system gynllunio fod wrth wraidd y broses o ystyried problemau amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y pandemig. Mae'r ddogfen yn amlygu'r polisïau a'r dulliau cynllunio presennol y dylid eu defnyddio gan yr holl sectorau fel rhan o adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen parhaus am gynllunwyr i weithredu mewn cyd-destun ehangach o flaenoriaethau a gweithredu ar bob graddfa. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fabwysiadu'r agenda creu lleoedd a amlinellir yn y PCC yn rhagweithiol, lle mae pob cynllun yn unigryw i ardal, gan nodi ei chymeriad, ei chryfderau ac ardaloedd lle mae angen gwelliant ac amlinellu polisïau mewn perthynas â sut y gellir newid yr ardaloedd hyn.

2.26 Mae'r ddogfen yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leoedd gwell, creu lleoedd, canlyniadau o safon a dylunio da ac yn nodi meysydd polisi a ddylai fod yn ffocws ystyried a gweithredu, er mwyn gweithredu fel sbardun ar gyfer adferiad. Mae'n nodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau bod y camau gweithredu mor effeithiol â phosib. Bydd yr 2RLDP, fel dull allweddol o fynd i'r afael â'r materion hyn, yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r adferiad wedi Covid yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r 8 mater fel a ganlyn:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau;
- Teithio Llesol: ymarfer corff a dulliau trafnidiaeth wedi'u hail-ddarganfod;
- Adfywio canol ein trefi;
- Lleoedd digidol: llinell gymorth y cyfnod cloi;
- Ymarferion gweithio sy'n newid: ein hangen ar gyfer tir cyflogaeth yn y dyfodol;
- Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru;
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a gwydnwch ecolegol;
- Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer iechyd a lles gwell;

## Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

2.27 Mae hwn yn gosod seiliau pontio Cymru i fod yn genedl carbon isel; gan bennu ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynyddu effeithlonrwydd a thorri allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd, a thrwy hynny cyfrannu at gymdeithas decach ac iachach. Mae pum ffordd o weithio canllaw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar weithredoedd dadgarboneiddio Cymru, gan sicrhau cydweithio effeithiol ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid i integreiddio dadgarboneiddio, yn cyfyngu effeithiau pellach newid yn yr hinsawdd ac yn mwyafu pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol.

2.28 Mae gan y system gynllunio rôl bwysig wrth hwyluso'r broses o ddatgarboneiddio. Mae ffocws ar Greu Lleoedd mewn Polisi Cynllunio Cymru yn annog datblygiadau wedi'u darlunio'n dda sy'n sicrhau bod gan gymunedau'r gwasanaethau mae eu hangen arnynt o

fewn cyrraedd rhwydd. Mae plethora o flaenoriaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio hefyd yn annog allyriadau carbon is wrth ar yr un pryd greu lleoedd lle gall pobl fyw'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy, cyfyngu'r defnydd o danwydd ffosil a chynnwys egwyddorion teithio llesol (cerdded a beicio) i ddatblygiadau newydd. Yn y pen draw, gall isadeiledd carbon isel helpu i gynyddu effeithlonrwydd drwy'r ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu a'i gludo, dyluniad ac adeiladu adeiladau a chludo pobl a nwyddau. Yn y pen draw, rhaid i'r holl Gynlluniau Datblygu gefnogi'r nodau dadgarboneiddio strategol hyn i hyrwyddo ynni glân a datblygu gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## Cyd-destun Rhanbarthol

## Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd

2.29 Mae Rhanbarth Prifddinas-ranbarth Caerdydd (CCR) yn cynnwys deg awdurdod lleol ledled rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn gweithio'n gydweithredol ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan, megis digartrefedd a chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae'r awdurdodau sy'n creu Prifddinas-ranbarth Caerdydd wedi ymrwymo i Fargen Ddinesig i ariannu prosiectau â'r nod o roi hwb i natur gystadleuol y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn helpu i roi hwb i dwf drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i gamu i fyd gwaith a rhoi'r cymorth maen ei angen ar fusnesau iddynt dyfu. Mae llywodraethu cryf wedi cael ei sefydlu ar draws y rhanbarth drwy Gyd-gabinet Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Cytunwyd ar Gynllun Busnes Strategol pum mlynedd i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf o'r fargen ym mis Mai 2018 gan y 10 partner awdurdod lleol a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi amcanion strategol rhanbarthol Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sef:

- Ffyniant a Chyfleoedd – datblygu gallu unigolion, aelwydydd, y sector cyhoeddus a busnesau i fodloni heriau a manteisio ar gyfleoedd, gan greu economi fwy cynhyrchiol;
- Cynhwysiant a Chydraddoldeb – economi fywiog a chynaliadwy sy'n cyfrannu at les ac ansawdd bywyd pobl a chymunedau'r rhanbarth nawr ac yn y dyfodol; ac
- Hunaniaeth, Diwylliant, Cymuned a Chynaliadwyedd – creu hunaniaeth glir ac enw da cryf ar gyfer y Prifddinas-ranbarth ar gyfer masnach, arloesedd ac ansawdd bywyd.

2.30 Mae'r Prifddinas-ranbarth yn datblygu amrywiaeth o ddulliau cyllido i gynorthwyo wrth ddatblygu'r rhanbarth, gan geisio mynd i'r afael ag isadeiledd a dichonoldeb. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys:

- Cronfa Fuddsoddi Ehangach, sy'n cael ei rhannu'n is-gronfeydd wedi'u targedu'n benodol i gategorïau penodol;
- Cronfa Heriau, â'r nod o ganfod atebion i heriau sy'n gysylltiedig â dadgarboneiddio, gwella iechyd a llesiant, a thrawsnewid cymunedau;
- Safleoedd Strategol a Chronfa Mangreoedd, i gefnogi Cynllun Diwydiannol ac Economaidd y rhanbarth, gan dargedu prosiectau allweddol i gyflawni amcanion y rhanbarth;
- Cronfa Fuddsoddi Arloesedd, i ddarparu cyfalaf twf i arloesi busnesau mewn sectorau diwydiannol allweddol.

- Menter Cymoedd y Gogledd, i gynyddu ffyniant a chystadleurwydd ledled 6 awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) drwy ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat i greu swyddi a hybu gwerth ychwanegol gros.

## Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

2.31 Cyrff corfforaethol rhanbarthol yw Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) gyda phwerau, dyletswyddau, llywodraethu a gweinyddiaeth sy'n debyg i rai awdurdodau lleol yn gyffredinol. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n cynnwys eu meysydd ac mae aelodaeth y cydbwyllgorau yn cynnwys arweinwyr gweithredol yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth hwnnw. Ym mis Chwefror 2021, pennwyd Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a oedd yn sefydlu pedwar cydbwyllgor, ac un ohonynt yw rhanbarth y de-ddwyrain. Sefydlwyd y cydbwyllgor ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain yn ffurfiol ym mis Ebrill 2024.

2.32 Mae'r cydbwyllgorau'n gyfrifol am gynllunio datblygu strategol (paratoi'r CDS), cynllunio trafnidiaeth ranbarthol (paratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTR)), a hyrwyddo lles economaidd eu hardaloedd.

## Metro De Cymru

2.33 Roedd y Metro yn rhan o'r Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd wreiddiol, gyda mwy na hanner cyfanswm y Fargen Ddinesig yn cael ei ymrwymo iddo. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Drafnidiaeth Cymru (TfW), yn gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd metro yn y rhanbarth, ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am wasanaethau bws a theithio llesol. Mae'r Metro yn brosiect uchelgeisiol â'r nod o ddarparu rhwydwaith integredig o deithio llesol, bws a thrên a fydd yn gwella hygyrchedd ac yn gwneud trafnidiaeth gynaliadwy ledled y rhanbarth, trwyddo a thu hwnt iddo'n haws ac yn gyflymach. Mae'r Metro yn elfen allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru, ac mae Cymru'r Dyfodol yn pennu'r gofyniad i CDLlau gynllunio am dwf a fydd yn mwyafu manteision cyllido'r Metro.

2.34 Mae gwelliannau Metro wedi'u gwneud ac mae ail gam y gwelliannau i Linellau Craidd y Cymoedd wedi dechrau. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys gwelliannau i'r rheilffyrdd a gorsafoedd i gynnig trenau hwy ac amlach ar hyd llinell Cwm Rhymni. Bellach, disgwylir i'r gwelliannau hyn gael eu cwblhau yn 2025.

2.35 Er bod dau gam y gwelliannau wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y Metro, mae nifer fawr o brosiectau ychwanegol a gynigwyd i'w hystyried ar gyfer camau cyllido'r Metro yn y dyfodol, os bydd y cyllid yn cael ei ryddhau. Ar y cyd, cyfeirir at y prosiectau hyn fel cynlluniau Metro Plus a chynigwyd sawl cynllun yn y Fwrdeistref Sirol.

## Cydweithio Rhanbarthol

2.36 Oherwydd ei leoliad yng nghanol y Prifddinas-ranbarth, mae'n bwysig bod CBS Caerffili yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos, yn ogystal â'r tri awdurdod arall sy'n cynnwys Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Yn dilyn diddymu'r Cynghorau Sirol fel rhan o aildrefnu llywodraethau lleol 1996, sefydlodd deg awdurdod lleol y Prifddinas-ranbarth Caerdydd Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG) sydd wedi parhau tan y presennol. Rôl SEWSPG oedd ystyried materion polisi sy'n effeithio ar y rhanbarth a chynnig adborth i Lywodraeth Cymru am amrywiaeth o faterion. O ganlyniad, mae'n glir bod gan y rhanbarth cyfan hanes o weithio'n gydweithredol o safbwynt polisi cynllunio.

2.37 Fel rhan o baratoad yr 2RLDP, mae'n ofynnol bod CBS Caerffili yn gweithio gydag awdurdodau'r Prifddinas-ranbarth Caerdydd, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol. Mae hyn yn parhau i ddigwydd drwy gyfarfodydd yr SEWSPG a thrwy

weithio'n uniongyrchol gyda'r holl awdurdodau.  Fodd bynnag, ar gyfer y rownd hon o adolygiadau'r CDLl, mae awdurdodau lleol wedi mynd gam ymhellach i gydweithio a, lle bo'n briodol, wedi rhoi cynnydd pob awdurdod lleol ar eu paratoad ar gyfer y CDLl, cydweithio a chaffael ar sail tystiolaeth ac mae gwaith arall wedi'i wneud. Hyd yma, mae CBS Caerffili wedi gweithio'n gydweithredol gydag awdurdodau eraill mewn perthynas â'r canlynol:

- Datblygu model o ddichonoldeb datblygu ar gyfer asesiadau sy'n benodol i'r safle a dichonoldeb lefel uchel (mae pob un o 10 awdurdod Prifddinas-ranbarth Caerdydd ac awdurdodau lleol Rhanbarthau Canol a Gorllewin Cymru);
- Astudiaeth sy'n ehangach na'r Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol Leol (Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fôn, Torfaen a Chasnewydd – yn ystyried y farchnad cyflogaeth ranbarthol);
- Caffaeliad system cronfa ddata ymgynghori ar gyfer y CDLl (Caerffili, Bro Morgannwg a RhCT);
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel Rhanbarthol (Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fôn, Casnewydd a Thorfaen);
- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol (pob un o 10 awdurdod Prifddinas-ranbarth Caerdydd).
- Astudiaeth Ranbarthol ar Dwf ac Ymfudo ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd (pob un o'r 10 awdurdod)
- Cydweithio rhanbarthol ar Fwynau drwy'r Gweithgor Rhanbarthol Agregau.

2.38  Bydd cydweithio ac ymgysylltu â'r awdurdodau lleol eraill yn parhau wrth i'r 2RLDP fynd yn ei flaen a lle bydd cyfleoedd yn codi i gyd-gomisiynu neu gydweithio ar faterion, bydd CBS Caerffili'n parhau i gyfrannu atynt mewn ffordd gadarnhaol.

## Cynllun Llesiant Gwent

2.39  Mae Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Caerffili (BGC Caerffili) wedi cael ei gyfuno â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus eraill yng Ngwent i greu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent (BGC Gwent). Mae gan BGC Gwent gyfrifoldeb am baratoi'r Cynllun Lles ar gyfer ardal Gwent, a fydd yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili.   Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Gwent ym mis Awst 2023 ac mae'n nodi'r 2 amcan llesiant ar gyfer yr ardal a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Y ddau amcan yw:

- Rydyn ni am greu Gwent decach a chynhwysol i bawb.
- Rydyn ni am Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i amddiffyn, er budd ein llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Cyd-destun Lleol

2.40  Elfen allweddol o ddarparu targedau cenedlaethol a rhanbarthol a chanlyniadau yw'r rôl mae'r Cyngor yn ei chymryd wrth ddehongli canllawiau a pholisi lefel uchel yn newid ymarferol ac ystyrlon yn y Fwrdeistref Sirol.  Mae'r Cyngor wedi paratoi sawl strategaeth gorfforaethol sy'n mynd i'r afael â sut mae'n cyflawni ei fusnes a sut mae'n ceisio gwireddu'r targedau a bodloni'r gofynion sydd wedi'u gosod arno. Er nad yw'r holl ddogfennau corfforaethol yn berthnasol i gynllunio, mae sawl dogfen allweddol yn yr 2RLDP y bydd angen eu hystyried fel rhan o'i baratoi.

## Cynllun Corfforaethol Bwrdeistref Sirol Caerffili (Gan Gynnwys Amcanion Llesiant) 2023-2028

2.41 Yn dilyn uno Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili â’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yng Ngwent i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, cynllun llesiant y Cyngor yw’r Cynllun Llesiant ar gyfer Gwent a amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi'r amcanion llesiant ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyda'i Gynllun Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023.

2.42 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi 5 amcan llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol ac yn mynd i'r afael â sut y caiff y rhain eu cyflawni. Y 5 amcan yw:

- WBO1 - Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg
- WBO2 - Galluogi ein Trigolion i Ffynnu
- WBO3 - Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu
- WBO4 - Galluogi ein Heconomi i Dyfu
- WBO5 - Galluogi ein Hamgylchedd i Fod yn Wyrddach

## Argyfwng Hinsawdd a’r Strategaeth Ddatgarboneiddio

2.43 Ym mis Mehefin 2019, yn sgil y problemau cynyddol sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd sy’n effeithio ar bob un ohonom, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd yn ffurfiol. Mae’r Argyfwng Hinsawdd yn ymwneud â’r ffordd mae’r Cyngor ei hun yn cyflawni ei fusnes. Wrth ddatgan Argyfwng Hinsawdd, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i:

- Fod yn niwtral o ran net carbon erbyn 2030, a
- Datblygu strategaeth ddatgarboneiddio glir sy’n galluogi’r Cyngor i gyrraedd y targed o fod yn niwtral o ran carbon.

2.44 Ym mis Tachwedd 2020, mabwysiadodd y Cyngor ei strategaeth ddadgarboneiddio’n ffurfiol, sef Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso a Phrynu. Mae’r strategaeth hon yn canolbwyntio’n naturiol ar y defnydd o ynni a chynhyrchu, ac mae’n amlinellu hierarchaeth ynni i gyflawni dadgarboneiddio:

- LLEIHAU: Lleihau’r defnydd o ynni yw’r cam cyntaf yn yr hierarchaeth ynni. Mae llawer o ffyrdd y gall yr awdurdod leihau ymhellach ei effaith ar yr amgylchedd ac yn benodol, lleihau cyfaint yr allyriadau carbon mae’n eu rhyddhau
- CYNHYRCHU: Bydd creu ei drydan “gwyrdd” a’i wres ei hun ar adeg defnyddio yn lleihau allyriadau carbon y Cyngor a bydd yn rhoi’r bonws ychwanegol o wrthbwyso galw ar y grid a lleihau colledion system sy’n gysylltiedig â thrydan a ddarperir o’r grid.
- GWRTHBWYSO: Er mwyn cyrraedd carbon sero net, bydd angen i’r awdurdod wrthbwyso unrhyw allyriadau carbon. Mae sawl ffordd y gall y Cyngor wneud hyn, gan gynnwys plannu coed, ail-wylltio a draenio cynaliadwy.
- PRYNU: Bydd y ffordd newydd o feddwl sy’n ofynnol i’r Cyngor er mwyn cyflawni ei nod o garbon sero net hefyd yn canolbwyntio ar sut mae’n prynu nwyddau a gwasanaethau. Bydd popeth mae’r Cyngor yn ei brynu â charbon wedi’i wreiddio yn gysylltiedig ag ef a bydd angen ystyried hyn yn y broses gaffael.

2.45 Er mwyn cyflawni ei amcanion o’r Strategaeth Ddadgarboneiddio, paratowyd dwy ddogfen gefnogi hefyd:

- CYNLLUN GWEITHREDU Bydd rhoi amcanion y Strategaeth Ddadgarboneiddio ar waith yn gofyn am amrywiaeth o weithredoedd i'w cyflawni gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r gweithredoedd hyn mewn mwy o fanylder, gan ganolbwyntio gweithgaredd ar feysydd targed.
- PROSBECTWS YNNI: Mae'r Prosbectws Ynni yn amlinellu'r meysydd allweddol y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt a allai arwain at leihad mawr mewn allyriadau carbon, gan amlygu'r prosiectau ynni allweddol mae'r awdurdod yn ymchwilio iddynt.

## Sail ar gyfer Llwyddiant 2018–2023 (Strategaeth Adfywio)

2.46 Ym mis Gorffennaf 2018, mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Adfywio, "Sail ar gyfer Llwyddiant 2018-2023". Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer cyflawni adfywio ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu llwyfan ar gyfer trawsnewid parhau y Fwrdeistref Sirol. Nododd y strategaeth bedwar amcan lefel uchel, sef:

- Cefnogi Pobl: Mae'r amcan hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion y mae preswylwyr y Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu wrth gyflawni eu potensial;
- Cefnogi Busnes: Amcan hwn yw ceisio mynd i'r afael â phroblemau y mae preswylwyr yn eu hwynebu mewn perthynas â sicrhau cyflogaeth yn ogystal â chynorthwyo busnesau presennol a newydd i ddatblygu a thyfu.
- Cefnogi Ansawdd Busnes: Nod yr amcan hwn yw mynd i afael â'r materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd preswylwyr, gan gynnwys darpariaeth tai fforddiadwy priodol, cynnal yr amgylchedd naturiol a darparu mannau agored ag ystyr a sicrhau creu lleoedd priodol drwy ddatblygu;
- Cysylltu Pobl a Lleoedd: Amcan hwn yw ceisio mynd i'r afael â phroblemau hygyrchedd a chysylltedd ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys trafnidiaeth ffisegol a chysylltedd digidol.

2.47 Sail ar gyfer Llwyddiant oedd fframwaith trosfwaol ar gyfer adfywio'r Fwrdeistref Sirol ac nid oedd yn cynnwys prosiectau na datblygiadau adfywio manwl. I gefnogi'r Strategaeth, a darparu rhagor o fanylder am brosiectau potensial yn y Fwrdeistref Sirol, mae cyfres o bum Prif Gynllun wedi cael eu datblygu ar gyfer meysydd penodol yn y Fwrdeistref Sirol.

- Prif Gynllun Basn Caerffili (sy'n cynnwys tref Caerffili, Cwm Aber, Llanbradach, Bedwas, Trethomas a Machen);
- Prif Gynllun Ystrad Mynach (sy'n cynnwys ardal Ystrad Mynach, gan gynnwys Nelson);
- Prif Gynllun Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (sy'n cynnwys ardal Blaenau'r Cymoedd o Rymni i lawr i Fargoed);
- Prif Gynllun Chymoedd Ebwy a Sirhywi Is (sy'n cynnwys Cwm Ebwy Is o'r Bont Newydd i lawr i Risca/Pont-y-meister a Chwm Sirhywi o Wyllie i lawr i Wattsville);
- Prif Gynllun Coed Duon Mwy (sy'n cynnwys ardaloedd Oakdale Coed Duon, Crymlyn a Maes-y-cwmwr).

2.48 Mae'r prif gynlluniau'n amlinellu rhagor o fanylion ar y prosiectau a'r cynlluniau ar gyfer adfywio eu hardaloedd a fydd yn cyflawni amcanion Sylfaen ar gyfer Llwyddiant. Bwriad y Strategaeth Adfywio a'r Prif Gynlluniau yw cynnwys cyfnod a bum mlynedd a

chânt eu hadolygu bob pum mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth Adfywio yn cael ei hadolygu.

## Sylfaen ar gyfer Llwyddiant: Darparu Ffyniant wedi Covid

2.49 Amharwyd ar Weledigaeth Strategol ar gyfer Adferiad y Fwrdeistref Sirol drwy gydol 2020 gan ddau ddigwyddiad o bwys, sef Covid-19 a Brexit ac mae effeithiau economaidd sylweddol y ddau yn parhau i fod o bwys. Yn ogystal ag effaith y pandemig ar iechyd cyhoeddus, sydd wedi denu llawer o sylw, mae ei effaith wedi'i chyfuno ag effeithiau Brexit ar yr economi wedi bod yn fawr iawn.

2.50 Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi sefydlu Fframwaith Adferiad Strategol i gefnogi'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol ehangach er mwyn adfer wrth barhau i gefnogi'r Amcanion Lles a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2018-23. Paratowyd fframwaith adferiad economaidd 'Darparu Ffyniant wedi Covid-19' i gyflwyno'r amcan strategol i Gefnogi Busnes ac roedd gan y fframwaith tri cham unigryw, fel a ganlyn:

- Y cam ail-ddechrau – cam cychwynnol 'dan arweiniad y Llywodraeth';
- Y cam adfywio – sy'n seiliedig ar brofi, argaeledd brechlyn posib a hyder ac ymddygiad y cyhoedd; a
- Y cam Adfywio – sy'n datblygu Fframwaith Lles a Llywio Lleoedd a gymeradwywyd gan y Cyngor sy'n darparu rhestr o fuddsoddiadau sifil posib ar draws Caerffili gwerth mwy na £231 miliwn sy'n cyd-fynd yn benodol ag Amcanion Lles a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ac y caiff ei gyflwyno yn y tymor byr i ganolog.

2.51 Buddsoddiadau tymor hir mewn isadeiledd megis y rhai a gynigwyd yn y Fframwaith Llywio Lleoedd, â'r potensial i ail-gydbwyso'r economi leol, gwella cynhyrchiant a chreu swyddi a chyfleoedd ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n hynod bwysig wrth i ni gefnogi ein cymunedau i ailadeiladu dyfodol cynaliadwy a gwydn yn dilyn Covid.

## Strategaeth Tai: Agenda dros Newid 2021-2026(Strategaeth Tai)

2.52 Mae'r Strategaeth Tai yn amlinellu bwriad y Cyngor a'i bartneriaid i fodloni amrywiaeth eang o amcanion tai. Mae'r strategaeth yn cynnwys gweledigaeth hir dymor ar gyfer tai yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys themâu fforddiadwy, cyflenwi, ansawdd, rheoli, cynaliadwyedd, gwydnwch ac iechyd a lles. Mae'r weledigaeth wedi'i atgyfnerthu gan 5 blaenoriaeth strategol:

- Creu dewisiadau gwell – gan ganolbwyntio ar atebion sy'n canolbwyntio ar bobl;
- Creu lleoedd gwych i fyw – creu lleoedd cynaliadwy y gellir byw ynddynt;
- Creu cymunedau iach a bywiog – darparu cyngor, cymorth ac atebion ar draws yr holl ddeiliadaethau;
- Darparu cartrefi newydd – gwella darpariaeth cartrefi newydd; a
- Chefnogi anghenion tai arbenigol – cefnogi annibyniaeth a chreu llwybrau cadarnhaol.

2.53 Yn ogystal â'r pum blaenoriaeth, mae'r strategaeth yn cynnwys y themâu trawstoriadol canlynol sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac ymrwymiadau'r Cyngor a'i bartneriaid:

- Datblygu cynaliadwy – cyflawni dyfodol gwell a mwy cynaliadwy;
- Iechyd a lles – gwella canlyniadau iechyd a hyrwyddo lles; a

- Chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – darparu gwasanaethau heb rwystrau, sy'n parchu gwahaniaeth a hyrwyddo cynhwysiant.

2.54 Mae'r Strategaeth Tai yn dod gyda chynllun cyflwyno, sydd wedi'i bennu ar gyfer yr un cyfnod â'r strategaeth. Mae'r cynllun cyflwyno yn amlinellu amrywiaeth o weithredoedd a ddatblygwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid, o dan bob un o'r 5 blaenoriaeth strategol, i wireddu'r weledigaeth tai hir dymor. Caiff y cynllun cyflwyno ei fonitro a'i adolygu gan Bartneriaeth Cartrefi Fforddiadwy Caerffili.

# 3 Materion Defnyddio Tir Allweddol

3.1 Mae cynllun datblygu yn ddull ymyrryd yn y farchnad datblygu sy'n dylanwadu ar le gall y datblygiad fynd ai peidio. Mewn senario lle mae'r farchnad yn cyflwyno datblygiad mewn ardal lle mae angen amdano, ni fyddai angen cynllun datblygu. Felly, rôl yr 2RLDP yw mynd i'r afael â materion defnyddio tir sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol drwy fframwaith polisi a fydd yn rhoi'r canlyniadau a ddymunir.

3.2 Mae dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol yn elfen hanfodol ar baratoi ar gyfer yr 2RLDP a bydd angen i'r fframwaith polisi gael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Amlinelliad o'r materion allweddol wedi'i nodi isod i roi cyd-destun ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig. Mae adolygiad mwy cynhwysfawr o'r materion wedi'i nodi yn yr Adroddiad Adolygu. Y materion allweddol i'w 2RLDP mynd i'r afael â nhw yw:

## Materion Cenedlaethol a Rhanbarthol

NR1: Mae newid yn yr hinsawdd yn fater byd-eang a fydd yn gofyn am weithredu ar bob lefel. Bydd angen i'r 2RLDP fynd i'r afael â materion sy'n achosi newid yn yr hinsawdd ac yn sicrhau bod gwydnwch a lliniaru o ran newid yn yr hinsawdd nyn elfennau hanfodol wrth gynllunio pob datblygiad newydd.

NR2: Mae effeithiau Covid-19, Brexit a rhyfel yn Wcráin wedi cael effeithiau andwyol sylweddol ar economi'r wlad drwy gau busnesau a phroblemau cadwyni cyflenwi. Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn ceisio hybu twf economaidd drwy gydol cyfnod y cynllun felly bydd yn rhaid i'r 2RLDP fynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol.

NR3: Mae'r angen i ddadgarboneiddio yn flaenoriaeth genedlaethol a bydd yn rhaid i'r 2RLDP ddechrau hyrwyddo cynhyrchiant ynni dim carbon yn rhagweithiol gan gyfuno hyn â lleihau'r defnydd o ynni a chynyddu effeithiolrwydd ynni.

NR4: Mae gan Gymru ddiffyg tai o ganlyniad i danddarpariaeth adeiladu tai dros gyfnod estynedig o amser. Bydd yn rhaid i'r 2RLDP hyrwyddo a darparu tai marchnad a fforddiadwy mewn lleoedd lle mae pobl am fyw er mwyn darparu'r cartrefi mae pobl am fyw ynddynt.

NR5: Bydd Metro De-ddwyrain Cymru yn helpu i greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig ar draws y rhanbarth. Bydd angen i'r 2RLDP roi effaith i flaenoriaethau Metro sy'n berthnasol yn lleol yn nhermau defnyddio tir, gan weithredu fel dull o gyflawni cynigion penodol.

NR6: Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, hir dymor i greu cenhedlaeth o ysgolion yr 21$^{ain}$ ganrif. Mae'n cynnwys gweithio cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd yr 2RLDP yn ei gwneud hi'n bosib darparu cynigion penodol yn y Fwrdeistref Sirol, yn nhermau defnyddio tir.

NR7:  Mae'r Fwrdeistref Sirol wrth wraidd ardal dwf genedlaethol a nodwyd yng Nghymru'r Dyfodol. Bydd angen i'r 2RLDP ystyried twf ar lefel sy'n gymesur â chael dynodiad o ardal dwf genedlaethol.

## Materion Amgylcheddol

EN1:  Fel rhan o'r argyfwng newid yn yr hinsawdd, mae mynd i'r afael â datgarboneiddio yn brif sbardun ar gyfer cyflwyno newid.  Mae'r Cyngor wedi datgan 'argyfwng hinsawdd' a fydd yn cynnwys sawl mesur, gan gynnwys:

- Hyrwyddo a chyflwyno cynlluniau creu ynni adnewyddadwy;
- Hyrwyddo addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru drwy gynlluniau datblygu;
- Mabwysiadu draenio cynaliadwy a lleihau'r risg o lifogydd;
- Hyrwyddo newid model sylweddol i drafnidiaeth gynaliadwy (rheilffyrdd, bws, beicio a cherdded);
- Darparu cyfleusterau gwefru trydanol ar gyfer cerbydau trydan.

EN2:  Hefyd, bydd angen i'r 2RLDP fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig y rhai hynny sy'n codi o ganlyniad i weithgaredd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, sydd wedi arwain at nodi Dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

EN3:  Bydd angen i'r 2RLDP gynyddu'r manteision sy'n codi o fuddsoddiad Metro De Cymru a dylai hyrwyddo gwelliannau ac ychwanegiadau pellach i'r rhwydwaith trafnidiaeth.

EN4:  Bydd angen i'r 2RLDP sicrhau bod cynhaliaeth a gwelliant seilwaith glas a gwyrdd yn elfen hanfodol o gynllunio pob datblygiad. Yn ogystal, bydd angen i'r 2RLDPamddiffyn a gwella:

- Ardaloedd o bwysigrwydd ecolegol a daearegol;
- Ardaloedd o dirwedd gwerth uchel;
- Ardaloedd o fannau agored pwysig.

EN5:  Bydd yr 2RLDP yn ceisio defnydd tir llwyd cyn tir glas yn y man cyntaf, er nad yw hyn yn golygu na ddylid datblygu ar dir glas pan na fydd digon o safleoedd dichonol y gellir eu datblygu ar gael i fodloni gofynion y Fwrdeistref Sirol.

EN6:  Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys sawl cynefin flaenoriaeth sy'n cefnogi cysylltedd ecolegol.  Dylai'r 2RLDP gefnogi a gwella'r rhwydwaith hwn, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer ennill clir o ran bioamrywiaeth a gwella cysylltiadau ecolegol.

EN7:  Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddilyn yr hierarchaeth gwastraff, sy'n ceisio lleihau defnyddio ac yna ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer cyn cymryd yr opsiwn i waredu. Er y gwneir darpariaeth ar gyfer isadeiledd gwastraff ar lefel ranbarthol, bydd yn rhaid i'r 2RLDP gynnwys mesurau i leihau ac ailgylchu gwastraff drwy gydol y fframwaith polisi hwn.

EN8:  Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys ardaloedd sy'n sensitif o ran tirwedd.  Dylai'r 2RLDP ystyried datblygiad newydd yn y cyd-destun hwn.

EN9:  Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cynnal banc tir o fwynau 10 mlynedd i sicrhau ei gyfraniad yn y dyfodol at gyfanswm y graean rhanbarthol. Bydd angen i'r 2RLDP sicrhau y caiff cronfeydd digonol eu caniatáu i gynnal y banc tir hyd at ddiwedd cyfnod y cynllun, wrth leihau'r effeithiau andwyol gweithgarwch mwynau ar y dirwedd.

## Materion Economaidd

EC1:  Mae gan y Fwrdeistref Sirol lefelau cymharol uchel o anweithgarwch economaidd, lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a phocedi o amddifadedd fel y tystiwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019.  Dylai'r 2RLDP geisio mynd i'r afael â'r materion hyn i hyrwyddo gweithgarwch economaidd a chreu twf economaidd.

EC2:  Mae cyfradd y defnydd o dir cyflogaeth wedi bod yn isel dros gyfnod y cynllun presennol ac mae diffyg sylweddol o dir cyflogaeth ar gael ym Masn Caerffili i roi cyfle i gwmnïoedd ehangu a thyfu. Bydd angen i'r 2RLDP sicrhau bod safleoedd cyflogaeth yn rhai'r gellir eu cyflawni, a bod tir cyflogaeth priodol ar gael ym Masn Caerffili.

EC3:  Mae canran uchel o'r gweithlu'n parhau i fod yn gyflogedig ym maes gweithgynhyrchu, sef sector y disgwylir iddo ddirywio dros gyfnod y cynllun.  Bydd angen i'r 2RLDP hyrwyddo arallgyfeirio yn eu sectorau cyflogaeth a datblygu ei gryfderau presennol.

EC4:  Mae rhagolygon Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y boblogaeth economaidd yn y Fwrdeistref Sirol yn lleihau'n sylweddol dros gyfnod y cynllun. Bydd angen i'r 2RLDP sicrhau y caiff digon o dir ei nodi i greu'r mathau a niferoedd y swyddi a fydd yn denu pobl i weithio a byw yn y Fwrdeistref Sirol.

EC5:  Mae canolau trefi a manwerthu yn darparu lefel sylweddol o gyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol a bydd angen i'r 2RLDP gynyddu nifer y cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn y canolau hyn er mwyn creu'r fantais economaidd.

EC6:  Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi o ran twf parhaus, hir dymor, yn ogystal â bod yn ffactor allweddol wrth ddatblygu hunaniaeth y Fwrdeistref Sirol. Bydd y  2RLDP yn parhau i ddatblygu'r amrywiaeth o atyniadau twristiaeth newydd y Fwrdeistref Sirol a'u hintegreiddio â gwasanaethau a chyfleusterau ategol, fel cynnig twristaidd cydlynus.

EC7:  Mae cyfradd uchel o bobl yn cymudo tuag allan yn parhau yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd angen mynd i'r afael â hyn gydag ymagwedd wedi'i chydlynu rhwng cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol a gwella mynediad rhwng ardaloedd preswyl mawr a chanolfannau cyflogaeth, yn ogystal â rhoi cyfle i weithio gartref a allai gael effaith sylweddol ar anghenion teithio.

EC8:  Bydd cysylltedd digidol yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth wneud gweithio ystwyth a hyrwyddo twf economaidd yn bosib.  Bydd yr 2RLDP yn hyrwyddo ac yn cefnogi darpariaeth isadeiledd digidol a chyfathrebu i ddiwallu anghenion defnyddwyr a darparwyr am gyfnod y cynllun.

## Materion Cymdeithasol

SO1:  Mae newid naturiol wedi bod yn elfen allweddol yn nhwf y Fwrdeistref Sirol drwy gydol ei hanes. Fodd bynnag, mae rhagolygon Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau, a bydd hyn yn arwain at newid naturiol negyddol drwy gydol cyfnod y cynllun.  O ganlyniad, bydd angen i'r 2RLDP ddenu pobl i'r Fwrdeistref Sirol yn rhagweithiol er mwyn cyflwyno twf yn unol â'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.

SO2:  Mae gan y Fwrdeistref Sirol lefel gymharol uchel o salwch hir dymor sy'n cyfyngu a disgwyliad oes isel.  Dylai'r 2RLDP geisio rhoi grym, cyhyd ag y gall, i fesurau a fydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â hyn, yn nhermau defnyddio tir.

SO3:  Mae newidiadau yn yr amgylchedd manwerthu yn golygu y bydd angen i'r 2RLDP fod yn hyblyg iawn er mwyn ymateb i anghenion newidiol canolau trefi a chanolfannau

manwerthu ac mae hi bron yn bendant y bydd angen arallgyfeirio defnyddwyr ar draws y canolfannau hyn.

SO4: Bydd angen i’r 2RLDP barhau i amddiffyn a gwella darpariaeth lle gwyrdd naturiol dinesig ffurfiol a mynd i’r afael â materion mewn perthynas â darpariaeth lle chwaraeon a hamdden ar draws y Fwrdeistref Sirol i hyrwyddo lles preswylwyr.

SO5: Bydd angen i’r 2RLDP hwyluso cyflwyno isadeiledd cymunedol. Mae llawer o’r gwasanaethau a’r cyfleusterau mae’n ofynnol eu darparu yn gyfrifoldeb cyrff gwahanol i’r Cyngor ac felly, bydd angen i’r Cyngor weithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i nodi’r tir mae’n rhaid ei ddefnyddio i gynnig y cyfleusterau gofynnol a’r isadeiledd angenrheidiol.

SO6: Mae atgyfnerthu datblygiad gydag egwyddorion creu lleoedd cadarn yn ffordd o gyflwyno datblygiad cynaliadwy a chymunedau gwydn. Bydd angen i’r 2RLDP sicrhau bod fframwaith y polisi wedi’i atgyfnerthu gan egwyddorion creu lleoedd.

SO7: Mae’r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys ardaloedd o ddiamddiffynedd uchel. Bydd angen i’r 2RLDP hwyluso mesurau a fydd yn lliniaru amddiffynedd drwy neilltuo tir a fframwaith polisi hyblyg.

## Materion Diwylliannol

CU1: Dylai’r 2RLDP geisio rhoi grym, cyhyd ag y gall, i fesurau defnydd tir sy’n meithrin datblygu a defnyddio’r Gymraeg.

CU2: Dylai’r 2RLDP ystyried datblygiad newydd yng nghyd-destun yr amrywiaeth o asedau treftadol, a’u lleoliadau, yn y Fwrdeistref Sirol.

CU3: Yn aml, mae asedau treftadol yng nghanol trefi a chanolfannau manwerthu’r Fwrdeistref Sirol, sef ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol. Dylai’r 2RLDP hyrwyddo gwydnwch ac addasu yn asedau treftadol y Fwrdeistref Sirol.

CU4: Mae nifer fawr o asedau treftadol y gallan nhw gynnig tai gwerthfawr ac adnodd economaidd aml-ddefnydd drwy ailddefnyddio addasedig. Dylai’r 2RLDP gynyddu cyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio addasedig asedau treftadaeth adeiledig i gynorthwyo wrth adfywio canolfannau trefi a chynyddu’r potensial am ailaddasu safleoedd gwag ar gyfer adfywio tai ac adfywio economaidd.

CU5: Mae gan greu lleoedd y potensial i atgyfnerthu’r amgylchedd diwylliannol a hanesyddol ym mhob rhan o’r Fwrdeistref Sirol. Dylai’r 2RLDP sicrhau ei fod yn mwyafu’r cyfleoedd hyn.

CU6: Mae treftadaeth y Fwrdeistref Sirol yn sbardun sylweddol ar gyfer yr economi dwristaidd yn y Fwrdeistref Sirol. Dylai’r 2RLDP fod yn hyblyg i’w gwneud hi’n bosib gwella ac ehangu twristiaeth treftadaeth, wrth amddiffyn asedau treftadaeth sy’n ei alluogi i gyfrannu at yr economi.

# 4 Y Weledigaeth, Nodau ac Amcanion Strategol

## Y Weledigaeth

4.1 Mae gweledigaeth o sut olwg fydd ar y Fwrdeistref Sirol erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn bwysig er mwyn deall yr hyn sydd angen newid dros gyfnod y cynllun. Bydd y newidiadau hyn yn llywio fframwaith y polisi a fydd yn sbardun ac yn newid uniongyrchol i wireddu’r weledigaeth.

4.2 Mae Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion ar gyfer yr 2RLDP wedi bod yn destun trafodaeth ac ystyriaeth drwy'r broses Ymgysylltiad CDLl drwy'r gyfres seminarau. Mae'r trafodaethau a'r ystyriaethau hyn wedi'u hamlinellu'n fanwl yn Nogfen Sylfaen Tystiolaeth "Ymgysylltu Cyd-adneuo" y Cyngor. Ystyriodd Grŵp Ffocws y CDLl y trafodaethau o'r broses ymgysylltu gan argymmell y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r weledigaeth ganlynol ar gyfer yr 2RLDP

## Gweledigaeth ar gyfer yr 2RLDP

**Bydd Strategaeth Ddatblygu Bwrdeistref Sirol Caerffili yn manteisio ar ein lleoliad strategol wrth wraidd Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd yn cyflawni datblygu cynaliadwy a fydd yn gwella lles y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn chwarae yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ymweld â hi. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, bydd y strategaeth wedi gwneud y canlynol:**

- **Mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol sydd wedi codi o Covid-19, Brexit a newidiadau mewn patrymau cyflogaeth a manwerthu, wedi hwyluso nifer uwch o swyddi, wedi cynnal twf economaidd, wedi manteisio ar gryfderau gweithgynhyrchu presennol a'r economi sylfaen ac wedi creu canolau trefi bywiog â mathau amrywiol o ddefnydd.**
- **Wedi datblygu a gwella'r seilwaith glas a gwyrdd ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy ei gynnwys wrth gynllunio datblygu a hyrwyddo amddiffyniad a gwelliant ardaloedd pwysig o ran cadwraeth natur ac iechyd a lles preswylwyr.**
- **Myned i'r afael â'r argyfwng tai drwy ddarparu tai fforddiadwy a marchnad, datblygu amrywiaeth eang a dewis o dai ac wedi sicrhau bod gan yr holl breswylwyr fynediad i gartref o safon yn y lleoliadau iawn,**
- **Wedi'i adeiladu ar gymeriad amrywiol ac unigryw trefi a phentrefi'r Fwrdeistref Sirol, wedi rhoi egwyddorion creu lleoedd wrth wraidd y dyluniad ac wedi annog cyfoeth diwylliannol ac amrywiaeth.**
- **Gwella rhwydwaith strategol adloniant, hamdden, addysg a chyfleusterau cymunedol, cymunedau wedi'u cryfhau a chreu ansawdd bywyd gwell i bawb.**

**Bydd y rhain i gyd yn seiliedig ar agweddau gwyrddach sy'n cynnwys:**

- **Defnydd cynyddol o gludiant cyhoeddus cynaliadwy a cherbydau trydanol, gan gynnwys isadeiledd gwefru.**
- **Hygyrchedd cynyddol drwy welliannau i'r rhwydwaith teithio llesol,**
- **Cynhyrchiant a defnydd cynyddol o ynni adnewyddadwy yn y Fwrdeistref Sirol.**

## Nodau ac Amcanion Allweddol

4.3 Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth drwy'r 2RLDP, mae cyfres o nodau, a nododd meysydd eang ar gyfer gweithredu ac Amcanion, a nododd camau gweithredu manwl i gyflawni elfennau o'r Weledigaeth eang, wedi'i nodi. Bydd Nodau ac Amcanion yn llywio datblygiad polisi manwl y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r 2RLDP Adnau.

## Y Nodau Allweddol

4.4 Mae'r nodau allweddol i'r 2RLDP yn cynnwys:

- A: Mynd i'r afael ag achosion effeithiau newid yr hinsawdd, a'u lliniaru a datblygu gwydnwch yn eu herbyn.
- B: Atgyfnerthu'r holl ddatblygiad gydag egwyddorion Creu Lleoedd, Datblygu Cynaliadwy a dylunio da.
- C: Sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad i bawb i'r holl gartref, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau arfaethedig a phresennol yn y Fwrdeistref Sirol.
- D: Gwella bywiogrwydd, amrywiaeth a chymeriad cymunedau lleol drwy ddefnyddio egwyddorion creu lleoedd cadarn ar gyfer iechyd a lles preswylwyr ac ennyn cydlyniant cymdeithasol.
- E: Amddiffyn a gwella seilwaith glas a gwyrdd y Fwrdeistref Sirol wrth gydbwyso'r angen am ddatblygu drwy gydbwyso effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i gyflawni datblygiad cynaliadwy.
- F: Hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Caerffili fel ardal gyda hunaniaeth unigryw ac fel ardal yn ei rhinwedd ei hun ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, wrth weithio ar y cyd er budd y rhanbarth.
- G: Sefydlu strwythur economaidd a phoblogaeth gynaliadwy a fydd yn cefnogi ein cymunedau a'n heconomi.
- H: Mynd i'r afael â heriau economaidd sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu tir a leolwyd yn gynaliadwy i gynyddu nifer y swyddi, hyrwyddo'r economi gylchol ac ennyn twf economaidd yn y Fwrdeistref Sirol, wrth hyrwyddo canolau trefi amrywiol gydag amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a darparu hierarchaeth gwastraff.
- I: Hyrwyddo datblygiad tai fforddiadwy a marchnad, mewn lleoliadau cynaliadwy, i ddarparu amrywiaeth a dewis o dai a fydd yn rhoi cyfle i bawb gael cartref o safon yn y lle iawn.
- J: Cefnogi datblygiad ac ehangiad pellach Metro De-ddwyrain drwy nodi cyfleoedd i wella hygyrchedd a hyrwyddo isadeiledd trafnidiaeth presennol i hwyluso newid i gludiant cyhoeddus a cherbydau trydanol, wrth gynyddu'r potensial am deithio llesol ar gyfer teithiau lleol a hamdden a chynnal gwydnwch y rhwydwaith priffordd strategol.
- K: Cefnogi a hwyluso datblygiad cyfleusterau addysg fodern i uwchsgilio'r boblogaeth wedi'u teilwra i anghenion dyfodol y Fwrdeistref Sirol.
- L: Annog cynhyrchiant ynni adnewyddadwy yn gadarnhaol a defnyddio'r Fwrdeistref Sirol i gynorthwyo wrth leihau allyriadau a lliniaru yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- M: Hyrwyddo creu lleoedd o safon drwy ddatblygiadau sy'n seiliedig ar ddylunio da a sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n lleihau'r potensial am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- N: Hyrwyddo amddiffyniad, adfywio a gwelliant ffabrig hanesyddol y Fwrdeistref Sirol er budd y diwylliant cyfoethog a'r amrywiaeth mae'n dod â nhw i gymunedau'r Fwrdeistref Sirol.

- O: Cyfrannu at wella iechyd cyhoeddus drwy hwyluso datblygiadau defnyddio tir sy’n cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a lles meddwl.

## Yr Amcanion Allweddol

4.5 Mae’r amcanion allweddol i’r 2RLDP wedi’u gosod isod. Maen nhw’n cyfeirio at y nodau allweddol y maen nhw’n mynd i’r afael â nhw:

1. Darparu ar gyfer lefelau cynaliadwy o dwf poblogaeth sy’n cyd-fynd â statws y Fwrdeistref Sirol yn yr Ardal Dwf Genedlaethol (G, H, I).
2. Rheoli, cadw a gwella ansawdd lleoedd agored a thirweddau a’u diogelu rhag ffurfiau datblygu amhriodol (D, M).
3. Darparu Budd Net i Fioamrywiaeth drwy nodi seilwaith glas a gwyrdd presennol a newydd ac asedau bioamrywiaeth, a’u diogelu a’u gwella (E).
4. Sicrhau bod pob datblygiad yn darparu Budd Net i Fioamrywiaeth drwy gynllun a threfn addas. (E).
5. Sicrhau bod cynigion datblygu yn mynd i’r afael yn llawn ag addasu yn sgil newid yn yr hinsawdd a lliniaru, gan gynnwys mesurau sy’n unol â’r hierarchaeth ynni (A, B, E).
6. Darparu targedau dim carbon Llywodraeth Cymru a chynorthwyo argyfwng hinsawdd y Cyngor drwy hyrwyddo datblygiad y genhadaeth ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol (A, L).
7. Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau wedi’u hategu gan egwyddorion yr economi leol, yn atal gwastraff drwy ystyried dewisiadau dylunio a thrin safleoedd a chynnig darpariaeth ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sy’n cyfleu trefn blaenoriaethau’r hierarchaeth gwastraff (H).
8. Annog ail-ddefnyddio a/neu ail-feddiannu tir llwyd priodol a thir wedi’i halogi ac atal halogi ac adfeilio pellach (E).
9. Sicrhau bod lleoliad datblygu newydd yn hwyluso mynediad i gludiant cynaliadwy a theithio llesol a bod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â rôl a swyddogaeth aneddiadau yn unol â’r hierarchaeth anheddiad (J).
10. Sicrhau bod amrywiaeth ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fodloni gofynion tai holl rannau’r boblogaeth (I).
11. Sicrhau bod yr holl ddatblygu yn bodloni gofynion creu lleoedd da, dylunio a chynaliadwyedd fel a amlinellwyd yn y Siarter Creu Lleoedd, gan greu lleoedd gydag ymdeimlad cryf o gymuned, dylunio o safon, cynaliadwyedd, gweithgarwch, cydraddoldeb a chreu ymdeimlad o le (A, M).
12. Rheoli, amddiffyn a gwella maint a safon yr amgylchedd dŵr a lleihau’r defnydd o ddŵr (D, E).
13. Lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygu sy’n agored iawn yn cael ei symud oddi wrth ardaloedd â risg ganolog ac uchel o lifogydd a gwreiddio egwyddorion SuDS cadarn mewn cynlluniau datblygu o’r dechrau. (E)
14. Lleihau’r angen i deithio drwy hyrwyddo cyfuniad o ddyraniadau defnydd o dir mewn lleoliadau cynaliadwy a darparu isadeiledd digidol gwell (E, J).

15. Hyrwyddo mynediad i bawb drwy flaenoriaethu cerdded a beicio teithio llesol), a chludiant cyhoeddus ac yn olaf, cerbydau modur, a thrwy hynny, lleihau llygredd aer a’r ddibyniaeth ar gerbydau preifat (J).
16. Mwyafu safle’r Fwrdeistref Sirol yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, gan gefnogi adfywio cydlynus a buddsoddiad i wella lles, cynyddu ffyniant a mynd i’r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac atgyfnerthu rolau strategol Caerdydd a Chasnewydd (F).
17. Darparu ac amddiffyn portffolio amrywiol o dir cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth o fathau o ddefnydd yn y lleoliadau mwyaf priodol, gan sicrhau bod swyddi a thai’n cyd-fynd â gwasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth cynaliadwy (H, K).
18. Gwella’r economi ymwelwyr yn sylweddol drwy wella atyniadau twristaidd gydol y flwyddyn a llety i ymwelwyr, a datblygu rhai newydd ac amrywiol, a mwyafu’r manteision cysylltiedig mae’r gwelliannau’n eu darparu (H).
19. Hyrwyddo system trafnidiaeth gyhoeddus integredig a chynaliadwy (J).
20. Sicrhau darpariaeth isadeiledd gwefru cerbydau isel iawn o ran allyriadau (J).
21. Darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol, â lleoliadau priodol, sy’n hygyrch iawn, sy’n gwella iechyd a lles ac sy’n diwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol (B, C, D, O).
22. Hyrwyddo, cynnal a gwella canolfannau manwerthu a masnachol y lleoliadau mwyaf cynaliadwy lle gall pobl fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes, gan sicrhau mynediad iddyn nhw drwy foddau cynaliadwy o gludiant (H).
23. Amddiffyn, cadw a chynyddu gwerth yr Amgylchedd Hanesyddol drwy hyrwyddo treftadaeth fel ased ac annog ailddefnyddio addasedig, cynaliadwyedd, creu lleoedd ac adfywio (B, N).
24. Hyrwyddo Amgylchedd Hanesyddol drwy leoedd hanesyddol sy’n cyfrannu at hanes y Fwrdeistref Sirol, wrth hyrwyddo a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol a’r amgylchedd hanesyddol, drwy gymunedau lleol a chynnwys ymwelwyr (B, N, N).
25. Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn cael ei gwasanaethu'n dda gan le agored cyhoeddus hygyrch a mannau gwyrdd naturiol a hygyrch, sy’n hybu ffordd o fyw iach ac actif ac sy’n gwella lles yn gyffredinol (B, D, E, M, O).

# Twf Strategol ac Opsiynau Strategaeth

## Poblogaeth

5.1 Rhan allweddol o’r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yw ystyried lefel y boblogaeth y bydd y Fwrdeistref Sirol yn gallu ei chynnal ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Bydd y gwahaniaeth rhwng y boblogaeth bresennol a’r boblogaeth ar ddiwedd cyfnod y cynllun yn darparu sail ar gyfer nodi nifer yr anheddau y bydd angen eu darparu, nifer y swyddi sy’n debygol o fod yn angenrheidiol, yr isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol y bydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr holl breswylwyr.

5.2 Er mwyn ystyried goblygiadau’r newidiadau nid yn unig o ran lefelau’r boblogaeth, ond hefyd o ran strwythur y boblogaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, mae nifer o opsiynau twf amgen wedi cael eu hasesu. Mae newid poblogaeth yn cynnwys dau ffactor, sef newid naturiol (y gwahaniaeth rhwng niferoedd y genedigaethau a’r marwolaethau mewn blwyddyn) a chyfraddau mudo (y gwahaniaeth rhwng y bobl hynny sy’n symud i’r Fwrdeistref Sirol a’r bobl hynny sy’n symud allan). Mae opsiynau ar gyfer newid yn y

boblogaeth y cael eu rhagweld gan ddefnyddio gwybodaeth a newidiwyd neu dybiaethau mewn perthynas ag un neu'r ddau newid naturiol a chyfraddau mudo.

5.3 Yn gyffredinol, ystyriwyd 11 o opsiynau poblogaeth i ddechrau ar gyfer strategaeth yr 2RLDP, 3 yn seiliedig ar ragolygon poblogaeth Llywodraeth Cymru 2018, 4 yn seiliedig ar dybiaethau mudo, 2 yn seiliedig ar gyfraddau adeiladau tai newydd , 1 yn seiliedig ar y boblogaeth economaidd ac 1 yn seiliedig ar gyflogaeth. Mae crynodeb o'r opsiynau a'u hystyriaeth wedi'i amlinellu yn Nogfen Sail Tystiolaeth y Cyngor: "Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai".

5.4 Fodd bynnag, ers cyhoeddi'r Cynllun Cyn-Adneuo cyntaf ym mis Hydref 2022, mae data Cyfrifiad 2021 wedi'u cyhoeddi ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn diwygiedig sydd wedi'u hailseilio i adlewyrchu data'r Cyfrifiad. Mae gan hyn oblygiadau penodol i Fwrdeistref Sirol Caerffili gan fod y Cyfrifiad wedi nodi bod y boblogaeth yng Nghaerffili ychydig dros 5000 o bobl yn llai nag a nodwyd yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn. Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hailseilio yn dangos bod y boblogaeth gychwynnol yn is na'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau twf strategol a bydd hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar boblogaeth gyffredinol a strwythur poblogaeth y Fwrdeistref Sirol ar ddiwedd cyfnod y cynllun. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi diweddaru ei opsiwn twf a ffefrir i'w alinio â Chyfrifiad 2021 a'r amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hail-seilio.

## Materion allweddol wrth ystyried Rhagolygon Poblogaeth a Thai

5.5 Mae Canllaw'r CDLl a'r PCC yn cynghori y dylid ystyried Rhagolygon diweddaraf gan Lywodraeth Cymru'n gyntaf yn y broses hon. Ar gyfer y broses hon, mae'r Cyngor wedi ystyried Prif Ragolwg Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 (Prif Ragolwg).

5.6 Mae newid yn y boblogaeth yn deillio o'r gyfradd eni, y gyfradd farwolaeth a lefelau mewnfudo yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Prif Ragolwg yn rhagweld, am y tro cyntaf, nifer uwch o farwolaethau na genedigaethau, sy'n arwain at newid naturiol negyddol, h.y. colli poblogaeth. Nid yw hyn wedi digwydd o'r blaen yn hanes y Fwrdeistref Sirol, gyda'r holl flynyddoedd blaenorol yn profi newid naturiol positif sy'n cyfrannu at dwf poblogaeth. Mae newid naturiol negyddol yn golygu y byddai'r Fwrdeistref Sirol yn lleihau o ran poblogaeth os nad oedd mudo net.

5.7 Er gwaethaf y newid naturiol negyddol, mae'r Prif Ragolwg yn nodi cynnydd mewn poblogaeth o ganlyniad mudo dros gyfnod y cynllun (2020 i 2035) o ychydig dros 1,800 o bobl, gan gynrychioli cynnydd o 1%. Er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth gyffredinol, mae dadansoddiad o strwythur y boblogaeth ar ddechrau a diwedd cyfnod y cynllun yn nodi y byddai'r boblogaeth economaidd (pobl o oedran gweithio) y lleihau gan bron i 2,900 o bobl, ac mae'r gymhareb hefyd yn nodi lleihau yn nifer y plant (0-15) dros gyfnod y cynllun o tua 2,700 o blant.

5.8 Mae'r golled poblogaeth economaidd a'r boblogaeth sy'n oedran plant yn arwain at oblygiadau sylweddol iawn ar gyfer economi'r Fwrdeistref Sirol, gyda gweithlu sy'n lleihau a llai o bobl ifanc yn cyrraedd oedran cyflogaeth. Golyga hyn y gallai'r Fwrdeistref Sirol fod yn cynllunio'n rhwydd am gyfyngiad economaidd yn hytrach na thwf. Gallai'r golled poblogaeth yn y grwpiau oedran hyn hefyd gael goblygiadau sylweddol ar gyfer gwasanaethau ac isadeiledd, yn enwedig ysgolion, gyda nifer o blant oedran ysgol yn lleihau'n sylweddol.

5.9 Lleolir Bwrdeistref Sirol Caerffili ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd sy'n ceisio cynyddu nifer y swyddi yn y rhanbarth gan 25,000 drwy ei Fargen Ddinesig. Yn ogystal, mae hefyd wedi'i leoli mewn Ardal Dwf Genedlaethol a nodwyd yng Nghymru'r Dyfodol, sy'n ceisio lefel o dwf gymesur i'r hyn mae'n rhaid darparu ar ei chyfer yn y maes hwn.

Rhan hanfodol o unrhyw strategaeth sy’n ceisio bodloni’r gofynion hyn yw poblogaeth sy’n dangos twf, gyda thwf yn y boblogaeth economaidd yn benodol er mwyn cyrraedd targedau swyddi. O ganlyniad, bydd strategaeth dim ond yn bodloni gofynion Cymru’r Dyfodol a dyheadau Prifddinas-ranbarth Caerdydd os yw’n nodi lefel briodol o dwf mewn poblogaeth (gan gynnwys poblogaeth economaidd).

## Rhagolygon Aelwydydd

5.10 Mae rhagolygon aelwydydd yn rhoi brasamcangyfrifon o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol a nifer y bobl sy’n byw ynddynt. Maent yn seiliedig ar ragolygon poblogaethau ac amrywiaeth o dybiaethau am gyfansoddiad a nodweddion aelwyd. Caiff nifer yr aelwydydd ei throsi’n nifer anheddau drwy ddefnyddio cyfradd gwacter, i ganiatáu eiddo gwag a throsiant yn y farchnad.

5.11 Mae hyn wedi’i gynnal ar gyfer yr 11 rhagolwg cychwynnol ac opsiynau tai a nodwyd. Mae’r rhagolygon llawn wedi’u hamlinellu yn y ddogfen ac Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai.

## Asesiad o Senarios Twf Amgen

5.12 Mae cyfanswm o 11 opsiwn twf wedi cael eu hystyried ar gyfer yr 2RLDP. Mae crynodebau pob un o’r canlyniadau wedi’u nodi isod::

1. Senario A: Prif Ragolwg LlC yn seiliedig ar 2018: Newid Poblogaeth 2020-2035: 1,881, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 1.0, Newid Aelwyd 2020-2035: 2,862, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 3.7, Cyfanswm yr Anheddau: 9,996, Anheddau’r flwyddyn: 198, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -2,868.
2. Senario B: Poblogaeth Uchel LlC yn seiliedig ar 2018: Newid Poblogaeth 2020-2035: 5,499, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 3.0, Newid Aelwyd 2020-2035: 4,241, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 5.5, Cyfanswm yr Anheddau: 4,395, Anheddau’r flwyddyn: 293, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -1,842.
3. Senario C: Poblogaeth Isel LlC yn seiliedig ar 2018: Newid Poblogaeth 2020-2035: 3,313, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: -1.8, Newid Aelwyd 2020-2035: 1,026, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 1.3, Cyfanswm yr Anheddau: 1,064, Anheddau’r flwyddyn: 71, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: 3,938
4. Senario CH: Mewnfudo Sero Net: Newid Poblogaeth 2020-2035: -2,789, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: -1.5, Newid Aelwyd 2020-2035: 884, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 1.1, Cyfanswm yr Anheddau: 917, Anheddau’r flwyddyn: Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -6,413.
5. Senario D: Mewnfudo Cyfartalog Hir Dymor (19 o flynyddoedd) : Newid Poblogaeth 2020-2035: -1,002, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: -0.6, Newid Aelwyd 2020-2035: 1,695, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 2.2, Cyfanswm yr Anheddau: 1,756, Anheddau’r flwyddyn: 117, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -5,380.
6. Senario DD: Mewnfudo Cyfartalog Hir Dymor (10 o flynyddoedd) : Newid Poblogaeth 2020-2035: -1,137, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: -0.6, Newid Aelwyd 2020-2035: 1,636, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 2.1, Cyfanswm yr Anheddau: 1,696, Anheddau’r flwyddyn: 113, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -756.
7. Senario E: Mewnfudo cyfartalog de-ddwyrain Cymru: Newid Poblogaeth 2020-2035: 5,212, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 2.9, Newid Aelwyd 2020-2035:

4,195, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 5.4, Cyfanswm yr Anheddau: 4,348, Anheddau'r flwyddyn: 290, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -756.

8. Senario F: Parhad y CDLl a fabwysiadwyd: Newid Poblogaeth 2020-2035: 15,058, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 8.3, Newid Aelwyd 2020-2035: 8,323, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 10.8, Cyfanswm yr Anheddau: 8,622, Anheddau'r flwyddyn: 575, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: 7,668.

9. Senario FF: Cyfraddau adeiladu tai hir dymor: Newid Poblogaeth 2020-2035: 7,990, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 4.4, Newid Aelwyd 2020-2035: 5,399, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 7.0, Cyfanswm yr Anheddau: 5,595, Anheddau'r flwyddyn: 373, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: 1,944.

**10. Senario G: Twf Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn y boblogaeth oedran gweithio: Newid Poblogaeth 2020-2035: 10,685, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: 5.9, Newid Aelwyd 2020-2035: 6,513, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: 8.4, Cyfanswm yr Anheddau: 6,750, Anheddau'r flwyddyn: 450, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: 4,126.**

11. Senario NG: Senario Rhagolwg Cyflogaeth Economaidd Rhydychen: Newid Poblogaeth 2020-2035: -8,805, Canran y Newid Poblogaeth 2020-2035: -4.8, Newid Aelwyd 2020-2035: -2,031, Canran y Newid Aelwyd 2020-2035: -2.6, Cyfanswm yr Anheddau: 0, Anheddau'r flwyddyn: 0, Newid mewn poblogaeth oedran gweithio: -11,231.

5.13 Mae'r disgwyliad sy'n codi o gynnwys Caerffili yn nynodiad Ardal Dwf Genedlaethol Cymru'r Dyfodol a dyheadau economaidd Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn golygu bod unrhyw strategaeth arfaethedig ar gyfer yr 2RLDP angen sicrhau poblogaeth economaidd ddichonadwy a chynaliadwy ac yn dangos twf. O ganlyniad i hyn, dim ond pedwar o'r opsiynau sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer strategaeth yr 2RLDP. Mae'r pedwar opsiwn fel a ganlyn:

- Senario A – Prif Ragolwg LlC yn seiliedig ar 2018;
- Senario F – Parhad y CDLl a fabwysiadwyd;
- Senario Ff – Cyfraddau adeiladu tai hir dymor; ac
- Senario G – Twf Poblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-ranbarth Caerdydd

5.14 Mae'r Opsiynau Twf wedi bod yn destun ymgynghori â'r gyfres seminar CDLl. O ganlyniad i'r gwaith hwn, argymhellodd y Grŵp Ffocws CDLl (y grŵp â chyfrifoldeb am wneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â materion 2RLDP) y dylid defnyddio senario Senario G – Twf Poblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-ranbarth Caerdydd fel sail y cynllun sy'n dod i'r amlwg.

5.15 Er bod Cyfrifiad 2021 wedi newid y man cychwyn ar gyfer rhagamcanion ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae'r materion sylfaenol a'r rhesymau dros ddewis yr opsiwn twf a ffefrir (Senario G) yn aros yr un fath. O ganlyniad, er gwaethaf y newid yn y man cychwyn, mae'r Cyngor yn parhau i gredu bod Senario G yn parhau i fod yr opsiwn twf priodol ar gyfer yr 2RLDP. O'r herwydd, dim ond wrth fynd i'r afael â Chyfrifiad 2021 a'r amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hailseilio y mae'r Cyngor wedi ailystyried Senario G.

## Gofynion Economaidd

5.16 O gofio bod yr Opsiwn Twf a ddewiswyd ar gyfer y cynllun sy'n dod i'r amlwg yn seiliedig ar uchelgeisiau Prifddinas-ranbarth Caerdydd ar gyfer twf economaidd, mae'n bwysig bod y cynllun yn gwneud darpariaeth i gynnal lefel ddigonol o dwf o safbwynt cyflogaeth. Comisiynodd y Cyngor ddwy astudiaeth, astudiaeth fwy na lleol sy'n ystyried y

farchnad ranbarthol ac adolygiad o dir cyflogaeth lleol sy'n ystyried argaeledd safleoedd presennol a maint y tir newydd y byddai'n rhaid ei nodi drwy'r cynllun sy'n dod i'r amlwg. Mae'r dogfennau hyn wedi llywio'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer yr 2RLDP, gan ystyried Opsiwn Twf G. Mae'r astudiaethau'n nodi gofyniad am ddarpariaeth 39.6 hectar ychwanegol o dir cyflogaeth i'w neilltuo i fodloni'r gofynion cyflogaeth, er bod 4.9 hectar ychwanegol yn cael ei nodi i fynd i'r afael â diffyg tir sydd ar gael yn ne'r Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad, nodwyd cyfanswm o 44.5 hectar i fodloni'r gofynion cyflogaeth cyffredinol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

## Twf mewn Cyd-destun Rhanbarthol

5.17 Mae Polisïau 19 a 33 Cymru'r Dyfodol yn nodi'r dull rhanbarthol o ystyried twf ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn mynd i'r afael â'u lefelau twf arfaethedig mewn cyd-destun rhanbarthol. Mewn ymateb i hyn comisiynodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru, ar y cyd â SEWSPG, ymgynghorwyr i gynnal astudiaeth o dwf rhanbarthol a mudo yn y Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ystyriodd yr astudiaeth hon cwmpas ar gyfer twf poblogaeth a thwf economaidd o fewn y rhanbarth mewn senario nad yw'n bolisi, gan nodi'r hyn y gellid ei gyflawni gydag ymyriadau polisi penodol. Ar gyfer Caerffili, nododd yr astudiaeth lefelau twf a oedd yn gymesur â'r rhai a nodwyd yn yr amcanestyniadau Senario G gwreiddiol, sy'n golygu nad oes angen newid yr opsiwn twf a ffefrir ar y sail hon. Cadarnhaodd yr astudiaeth ranbarthol yn gryf y twf cyflogaeth (swyddi) arfaethedig wrth ddangos lefel gyffredinol is yn y boblogaeth, sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gychwynnol a oedd yn seiliedig ar y boblogaeth ddiwygiedig yn unol â'r Cyfrifiad ac wedi'i hailseilio ar amcangyfrifon canol blwyddyn.

5.18 Mae'r Cyngor wedi ailedrych ar Senario G ac wedi ail-seilio'r rhagamcanion ar gyfer yr opsiwn hwn i adlewyrchu'r Cyfrifiad ac wedi ail-seilio amcangyfrifon canol blwyddyn.

# Polisi PS1: Lefel Twf yr 2RLDP

**SP1 Mae'r 2RLDP yn mabwysiadu lefelau twf a amlinellwyd yn Senario G diwygiedig – senario Twf Poblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd yr 2RLDP yn cynllunio am gynnydd mewn poblogaeth o oddeutu 11,603 o bobl, gyda chynnydd yn y boblogaeth economaidd o oddeutu 3,005 o bobl.**

## Opsiynau Strategaeth

5.19 Wedi nodi'r lefel o dwf, y cam nesaf oedd ystyried sut y gellir dosrannu'r lefel o dwf yn briodol ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Mae cyfanswm o 6 opsiwn strategaeth amgen wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses, gan fyfyrio ar y problemau sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol a'r fframwaith polisi rhanbarthol. Mae'r ystyriaeth a'r asesiad o'r opsiynau strategaeth wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Sylfaen Tystiolaeth "Asesiad o Opsiynau Strategaeth". Y chwe opsiwn strategaeth a ystyriwyd oedd:

- **Opsiwn Strategaeth 1: Parhad o'r Strategaeth CDLl**

  Byddai hyn yn gweld parhad y strategaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr CDLl a fabwysiadwyd ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn llywio datblygiad o fewn fframwaith strategol eang gan ategu egwyddorion datblygu strategol. Rhannwyd y Fwrdeistref Sirol yn dri maes strategol, pob un â'i bolisïau datblygu strategol eu hunain. Mae'r meysydd strategol hyn yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (HoVRA), Coridor Cysylltiadau'r Gogledd (NCC) a'r Coridor Cysylltiadau'r De (SCC).

- **Opsiwn Strategaeth 2: Ffocws Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd**

Mae'r strategaeth hon yn ceisio mwyafu cyfleoedd datblygu yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd i hyrwyddo twf economaidd, ehangu'r amrywiaeth a'u dewis o dai a mwyafu manteision buddsoddiad o bwys a gwelliant yn y Metro a'r A465.

- **Opsiwn Strategaeth 3: Safle Strategol Allweddol**

  Byddai'r opsiwn strategaeth hwn yn arwain at neilltuo safle strategol ym Maes-y-cwmwr i roi lle ar gyfer carfan sylweddol o ddatblygu tai newydd, ynghyd â datblygu ffordd mynediad a chysylltiad trafnidiaeth strategol gwell. Byddai'r datblygu newydd ychwanegol yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd Coed Duon Mwy ac Ystrad Mynach Mwy, ynghyd â Chymoedd Ebwy Is a Sirhywi, ar y safleoedd mwyaf priodol a chynaliadwy sydd wedi'u cysylltu'n dda â'r rhwydwaith rheilffyrdd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus.

- **Opsiwn Strategaeth 4: Ffocws Buddsoddiad y Metro**

  Byddai'r opsiwn strategaeth hwn yn golygu neilltuo tir â'r nod o fwyafu'r manteision sy'n deillio o'r buddsoddiad sylweddol ym Metro De-ddwyrain Cymru, gan fwyafu cyfleoedd sy'n codi o ac o amgylch nodau trafnidiaeth gyhoeddus allweddol, gan gynnwys gorsafoedd rheilffyrdd ar hyd Llinellau Rhymni ac Ebwy a'r prif orsafoedd bysus yng Nghoed Duon a Nelson.

- **Opsiwn Strategaeth 5: Canol Tref yn Gyntaf**

  Byddai'r opsiwn strategaeth hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn agos i brif drefni Caerffili, Ystrad Mynach, Coed Duon, Risca/Pont-y-meister a Bargoed a chanolfannau lleol Bedwas, Trecelyn, Nelson a Rhymni, ac agosrwydd un o'r canolfannau fydd y brif ystyriaeth wrth neilltuo safleoedd datblygu newydd.

- **Opsiwn Strategaeth 6: Ffocws Basn Caerffili**

  Nod y strategaeth hon yw mwyafu cyfleoedd datblygu yn y Coridor Cysylltiadau'r De i hyrwyddo twf economaidd a chynyddu manteision buddsoddiad sylweddol mewn adfywio tref Caerffili.

5.20 Roedd y chwe opsiwn strategaeth yn destun proses ymgynghori'r CDLl drwy'r gyfres o seminarau, lle trafodwyd yr opsiynau. Adroddwyd canlyniad y gwaith ymgysylltu wrth Grŵp Ffocws CDLl ac argymhellodd Grŵp Ffocws y CDLl y dylai'r strategaeth ar gyfer y 2RLDP fod yn strategaeth hybrid a ffurfiwyd o Opsiynau Strategaeth 3, 4 a 5. Y strategaeth hon oedd sail y Cynllun Cyn-Adneuo 1af. Yn dilyn yr ymgynghoriad ac mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd, mae'r strategaeth bellach wedi'i diwygio drwy ddileu'r Safle Strategol.

## Polisi PS2: Y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ar gyfer yr 2RLDP

**SP2 Mae'r 2RLDP yn mabwysiadu strategaeth hybrid, sy'n cynnwys Safle Strategol Allweddol; Opsiwn Strategaeth 4: Ffocws Buddsoddiad y Metro ac Opsiwn Strategaeth 5: Canol Tref yn Gyntaf.**

# 6 Hierarchaeth Anheddiad Cynaliadwy

6.1 Rôl hanfodol yr 2RLDP yw ystyried yr angen am dwf a datblygu a gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y twf hwn. Dylai'r 2RLDP awgrymu Strategaeth Ofodol glir sy'n nodi lle dylai'r twf gael ei leoli. Asesiad o aneddiadau Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei ddefnyddio i lywio a chreu opsiynau ar gyfer datblygu dyfodol y lleoliad. Mae'r aneddiadau

sy’n cael eu hystyried yn y CDLl wedi cael eu hasesu at ddibenion sefydlu Hierarchaeth anheddiad ar gyfer yr 2RLDP. Cafodd aneddiadau eu hasesu ar sail mae prawf, gan gynnwys maint, y gwasanaethau maent yn eu darparu, eu hygyrchedd a’u cysylltiadau trafnidiaeth.

6.2 Defnyddiwyd ymagwedd renciog i grwpio aneddiadau gyda nodweddion tebyg o ran cyfleusterau a gwasanaethau. Darperir rhagor o wybodaeth yn y Ddogfen Sylfaen Tystiolaeth “Dadansoddiad Gweithredol o Aneddiadau”. Mae’r Hierarchaeth anheddiad wedi’i diffinio yn Nhabl 2:

- Prif Aneddiadau - Mae canolfannau sy’n dangos y lefel uchaf o wasanaethau a chyfleusterau ac sydd â’r lefel uchaf o gludiant cynaliadwy. Aneddiadau: Bargoed, Coed Duon, Ystrad Mynach, Risca/Pont-y-meister, Caerffili
- Aneddiadau Lleol - Canolfannau â lefel gymedrol o wasanaethau a chyfleusterau ac sy’n hygyrch drwy gludiant cynaliadwy. Aneddiadau: Rhymni, Nelson, Trecelyn, Bedwas
- Canolfannau Preswyl sy’n addas ar gyfer twf - Aneddiadau sydd â lefel is o wasanaethau a chyfleusterau ond sydd wedi'u lleoli'n gynaliadwy ac sy'n briodol ar gyfer rhywfaint o dwf i gefnogi'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Lleol. Aneddiadau: Aberbargod, Abercarn, Abertridwr, Britannia, Cefn Fforest, Cefn Hengoed, Croespenmaen, Crosskeys, Crymlyn, Cwmcarn, Trelyn, Gelligaer, Gilfach, Glan-y-nant, Hengoed, Hollybush, Llanbradach, Llechryd, Machen, Maes-y-cwmwr, Tredegar Newydd, Oakdale, Penallta, Penmaen, Pengam, Penpedairheol, Pentwyn-mawr, Pen-y-bryn, Pontllan-fraith, Pontlotyn, Pont-y-waun, Princetown, Senghenydd, Tir-y-Berth, Tretomos, Trinant, Wattsville, Maes-y-coed, Wyllie.
- Aneddiadau Preswyl nad ydyn nhw’n addas ar gyfer twf -- Aneddiadau sydd â lefel isel o wasanaethau a chyfleusterau ac nad ydyn nhw wedi'u lleoli'n gynaliadwy ac nad ydyn nhw’n briodol ar gyfer darparu ar gyfer twf yn y dyfodol. Aneddiadau: Abertyswg, Argoed, Brynawel, Cwmfelin-fach, Deri, Fochriw, Graig-y-rhaca, Hafodyrynys, Markham, Rhydri, Ynys-ddu

6.3 Ymagwedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thwf yw canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr, gan alluogi cyd-leoliad tai, swyddi a gwasanaethau a’i gwneud hi’n bosib cynnig gwelliannau i seilwaith gwyrdd. Mae nifer o bolisïau Cymru’r Dyfodol yn atgyfnerthu’r sefyllfa hon, yn enwedig:

- Polisi 2 - Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol: Mae’r polisi hwn yn nodi’r gofyniad i dwf ac adfywio trefol a dinasoedd fod yn seiliedig ar egwyddorion creu lleoedd strategol sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at adeiladu lleoedd cynaliadwy.
- Polisi 6 - Canol Tref yn Gyntaf: Mae’r polisi hwn yn ceisio lleoli datblygiadau sector cyhoeddus newydd a sylweddol mewn canolfannau trefi presennol.
- Polisi 9 - Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd: Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofyniad i ddatblygiadau sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth a'r dull o gynllunio sy'n seiliedig ar natur.
- Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a’r Cymoedd: Mae’r polisi hwn yn ceisio hyrwyddo lefelau cenedlaethol o dwf yn y trefi a’r dinasoedd ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd.
- Polisi 36 – Metro’r De-ddwyrain: Mae’r polisi hwn yn ceisio cynyddu datblygu o amgylch nodau trafnidiaeth o bwys, a leolir mewn trefni mwy fel arfer.

6.4 Mae’r Hierarchaeth aneddiad yn ffactor pwysig wrth ystyried lle caiff datblygiad newydd ei nodi i ddarparu ar gyfer y lefelau o dwf a ragwelwyd yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Hierarchaeth yn nodi'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy o ran gwasanaethau a chyfleusterau wedi'u cyd-leoli a mynediad drwy gludiant cynaliadwy. O ganlyniad, bydd angen ystyried yr Hierarchaeth er mwyn hysbysu'r lleoliadau priodol ar gyfer datblygiad newydd fel rhan o'r strategaeth.

# 7 Y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig

7.1 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ar gyfer yr 2RLDP yn hybrid rhwng 3 opsiwn gwahanol. O ganlyniad, mae angen mireinio'r strategaeth i nodi'r elfennau o bob opsiwn strategaeth a fydd yn cael ei gyfuno i gyflwyno strategaeth gyffredinol a chydlynus ar gyfer y cynllun.

## Ardaloedd o Dwf

7.2 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig wedi'i pheryglu gan ddau opsiwn strategaeth penodol sy'n cydymffurfio ag ystyriaethau polisi a amlinellwyd yng Nghymru'r Dyfodol, sef Opsiwn 4: Ffocws Buddsoddiad y Metro (Polisi Cymru'r Dyfodol 12 – Cysylltedd Rhanbarthol, Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain), ac Opsiwn 5 – Canol Trefi yn Gyntaf (Polisi Cymru'r Dyfodol 6 – Canol Trefi yn Gyntaf).

7.3 Mae Ffocws Buddsoddiad y Metro yn gofyn i ddatblygiad gael ei leoli i wneud y mwyaf o'r buddion o fuddsoddi yn y Metro a'r potensial ar gyfer newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy. I wneud hyn, bydd angen lleoli datblygiad yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy, yn bennaf prif orsafoedd bysus a rheilffyrdd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Lleolir y gorsafoedd rheilffordd yn y Fwrdeistref Sirol ar Linell Cwm Rhymni, sy'n rhedeg ar hyd ochr orllewinol y Fwrdeistref Sirol o Gaerffili i Rymni, a Llinell Glyn Ebwy sy'n rhedeg ar ochr ddwyreiniol y Fwrdeistref Sirol o Risca i Drecelyn a Chrymlyn. Dylid nodi nad yw Coed Duon wedi'i lleoli ar linell rheilffordd ac er bod Nelson ar linell Cwmbargoed, nid oes ganddi wasanaethau i deithwyr. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ganolfan bysus a fyddai'n eu cynnwys o dan ffocws y Metro. Yn ogystal â'r ddwy ganolfan hon, mae gan Fargoed a Caerffili orsafoedd bysus hefyd.

7.4 Mae'r Polisi Canol Tref yn Gyntaf yn ceisio lleoli datblygiad mewn trefi a dinasoedd presennol ledled y rhanbarth ac yn agos atyn nhw. O ran y Fwrdeistref Sirol, mae hyn yn golygu lleoli datblygiadau o fewn Prif Ganolau Trefi'r Fwrdeistref Sirol a'r Aneddiadau Lleol neu'n agos atyn nhw yn y lle cyntaf. Dylid nodi, fodd bynnag, fod gan yr aneddiadau hyn gyfyngiadau sylweddol sy'n cyfyngu ar faint o ddatblygiad y gellid disgwyl yn rhesymol iddyn nhw eu cynnwys. Mae'r lefelau twf a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn golygu y bydd angen nodi safleoedd i'w datblygu hefyd mewn aneddiadau eraill ond eu lleoli nhw yn y lleoliadau gorau o ran ffocws y Metro a chanol y dref. Sail dystiolaeth Dogfen PS3 - Dadansoddiad o Rôl, Swyddogaeth a Chynaliadwyedd Anheddiad yn nodi canolfannau preswyl sy'n addas ar gyfer twf yn unol â'r strategaeth a chanolfannau preswyl nad ydyn nhw'n addas ar gyfer twf. Bydd safleoedd datblygu y tu allan i'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Lleol yn cael eu targedu at y canolfannau preswyl a all gynnwys twf.

7.5 Mae gan yr holl Brif Aneddiadau a'r Aneddiadau Lleol orsafoedd rheilffyrdd a bysus mawr, ac eithrio Bedwas sy'n agos iawn i Gaerffili ac, felly, mae'r ddau opsiwn yn nodi gofyniad i nodi twf a datblygu newydd yn agos i'r canolfannau hyn. Yn ogystal, bydd twf newydd hefyd yn cael ei leoli mewn aneddiadau preswyl sydd, oherwydd eu lleoliad a'u hagosrwydd at drafnidiaeth gynaliadwy a'r Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Lleol, yn addas ar gyfer twf.

7.6  Fel arfer, byddai'r cynllun yn nodi meysydd strategaeth lle bydd disgwyl lefelau penodol o dwf a datblygiad.  Fodd bynnag, nid yw natur linellol y gorsafoedd metro a dosbarthiad prif ganolfannau a chanolfannau lleol yn ei gwneud hi'n hawdd creu ardaloedd o strategaeth ofodol gydlynol.  O ganlyniad, nid yw'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi ardaloedd strategaeth ofodol yn y Fwrdeistref Sirol.

7.7  Heb ardaloedd strategaeth ofodol ddiffiniedig, caiff dosbarthiad datblygiadau newydd ei ddiffinio o amgylch y 5 Ardal Prif Gynllun yn y Fwrdeistref Sirol, gyda phob un yn canolbwyntio ar un o'r 5 Prif Ganolfan wedi'u nodi yn yr Hierarchaeth Anheddiad.

# Polisi PS3: Hierarchaeth Anheddiad

**PS3  Mae'r hierarchaeth anheddiad ganlynol wedi'i nodi ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Bydd datblygu a thwf newydd yn canolbwyntio ar y Prif Ganolfannau a Chanolfannau Lleol a chanolfannau preswyl sy'n addas ar gyfer twf, wedi'u nodi yn yr Hierarchaeth Anheddiad ganlynol i gefnogi eu rôl a'u swyddogaeth:**

- **Prif Aneddiadau: Bargoed, Coed-duon, Ystrad Mynach, Rhisga/Pont-y-meistr, Caerffili;**
- **Aneddiadau Lleol: Rhymni, Nelson, Trecelyn, Bedwas;**
- **Aneddiadau Preswyl sy'n addas ar gyfer twf;**
- **Aneddiadau Preswyl nad ydyn nhw'n addas ar gyfer twf;**
- **Aneddiadau Gwledig: Yr holl aneddiadau eraill a leolir y tu allan i ffiniau aneddiad diffiniedig**

# Polisi PS4: Ardaloedd o Dwf

**PS4  Caiff twf a datblygiadau newydd eu targedu tuag at Brif Aneddiadau ac Aneddiadau Lleol yn y lle cyntaf ac yna Aneddiadau Preswyl sy'n addas ar gyfer twf. Caiff datblygu ei ganiatáu yn yr Aneddiadau Preswyl hyn lle mae'n cyd-fynd â rôl a swyddogaeth yr anheddiad a lle mae'n seiliedig ar egwyddorion creu lleoedd cadarn ac yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy. Caniateir datblygu mewn Aneddiadau Preswyl nad ydyn nhw'n addas ar gyfer twf pan fo'r datblygu arfaethedig ar raddfa fach a'i fod yn cyd-fynd â rôl a swyddogaeth yr anheddiad. Ni fydd datblygiadau mewn Aneddiadau Gwledig fel arfer yn cael eu caniatáu oni bai bod y datblygiad ar raddfa fach ac yn cynnwys mewnlenwi ffryntiad adeiledig neu'n broses o dalgrynnu resymegol.**

## Materion Defnyddio Tir Allweddol

7.8  Mae Pennod 3 yn amlinellu'r materion defnyddio tir allweddol y bydd yn rhaid i'r 2RLDP fynd i'r afael â nhw er mwyn i'r cynllun fod yn llwyddiannus.  Mae'r Polisïau sy'n dilyn yn adlewyrchu'r prif faterion strategol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol ac yn darparu fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â nhw.

## Newid yn yr Hinsawdd

7.9  Mae'r mater o newid yn yr hinsawdd a'i oblygiadau yn ystyriaeth allweddol ar gyfer unrhyw gynllun datblygu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ogystal â lleihau allyriadau sy'n cyfrannu tuag at newid yn yr hinsawdd

# Polisi PS5: Newid yn yr Hinsawdd

**PS5 Rhaid i'r holl gynigion datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd, ac addasu i'r effeithiau hynny, drwy ddangos bod dyluniad a datblygiad wedi ystyried y canlynol:**

1. **Mae'r cynigion yn cynyddu'r effeithiolrwydd adnoddau ac yn defnyddio technegau adeiladu cynaliadwy ac yn defnyddio deunyddiau wedi'u cynhyrchu'n lleol;**
2. **Mae'r cynigion yn hyrwyddo gofynion ynni carbon isel/dim carbon drwy leihau'r defnydd o ynni a hyrwyddo effeithiolrwydd ynni;**
3. **Mae'r cynigion yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer technoleg ac ailbweru ynni adnewyddadwy;**
4. **Mae'r cynigion yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyd-leoli datblygiadau a hyrwyddo trafnidaeth cynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy;**
5. **Mae'r cynigion wedi'u cynllunio i fod yn wydn yng ngwyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd, a lliniaru ar eu cyfer;**
6. **Mae'r cynigion yn hyrwyddo dadgarboneiddio;**
7. **Nid yw'r datblygiad yn ardal sydd mewn perygl o lifogydd sy'n codi o gyrsiau dŵr, dyfroedd daear neu ddŵr wyneb, wrth fwyafu effeithiolrwydd dŵr a lleihau effeithiau niweidiol ar ansawdd yr adnoddau dŵr;**
8. **Mae'r cynigion yn hyrwyddo gwydnwch drwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwella seilwaith gwyrdd fel rhan o gynllun y datblygiad.**

## Datgarboneiddio - Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

7.10 Mae dadgarboneiddio, fel mesur i fynd i'r afael â'r hyn sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang a lliniaru yn erbyn ei effeithiau, yn llinyn allweddol ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu. Mae creu ynni o ffynonellau adnewyddadwy a dim carbon yn rhan hanfodol o gyflawni dadgarboneiddio. Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor fod yn rhagweithiol wrth gyflawni dull o greu ynni adnewyddadwy ac yn nodi Ardaloedd Cyn Asesu ledled Cymru lle mewn egwyddor, mae ynni'r gwynt ar raddfa fawr yn dderbyniol a lle mae'r egwyddor o newid tirwedd yn cael ei derbyn. Ar raddfa fwy lleol, bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn annog cynlluniau priodol ar gyfer creu ynni adnewyddadwy a bydd hefyd yn gweithio ar y cyd â darparwyr ynni i gyflawni'r cynlluniau priodol. I adlewyrchu hyn, mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cynnwys polisi i gefnogi darpariaeth ynni adnewyddadwy.

# Polisi PS6: Creu Ynni Adnewyddadwy

**PS7 Bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynlluniau creu ynni o ffynonellau adnewyddadwy a dim carbon.**

7.11 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Datgarboneiddio: Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso a Phrynu a Phrosbectws a Chynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau ei ôl troed carbon ei hun a chyflawni'r amcan trosfwaol o fod yn awdurdod carbon niwtral net erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn manylu ar y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd, gan gynnwys cynyddu'r ynni adnewyddu wedi'i gynhyrchu ar gartrefi ac adeiladau'r Cyngor a phlannu coed.

## Datblygu Cynaliadwy – Creu Lleoedd

7.12 Mae cyflawni datblygu cynaliadwy yn ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ledled Cymru. Mae datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy yn hybu dull byw actif ac iach ac yn cyfrannu'n sylweddol at les. Mae creu lleoedd yn sail i gyflawni datblygu cynaliadwy, a bydd egwyddorion creu lleoedd cadarn yn sail i'r cynllun.

# Polisi PS7: Egwyddorion Creu Lleoedd

**PS7 Rhaid i'r holl gynigion datblygu wella llesiant drwy amddiffyn a gwella agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol a chyfrannu tuag at yr egwyddorion creu lleoedd strategol canlynol:**

1. **Creu amrywiaeth cyfoethog o fathau o ddefnydd;**
2. **Darparu amrywiaeth o fathau a deiliadaethau tai;**
3. **Adeiladu lleoedd ar raddfa y gellir ei cherdded, gyda chartrefi, cyfleusterau a chludiant cyhoeddus o fewn pellter o'i gilydd y gellir ei gerdded;**
4. **Dwysedd poblogaeth sy'n cynyddu, gyda datblygu wedi'i adeiladu mewn dwyseddau trefnol sy'n gallu cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol;**
5. **Sefydlu rhwydwaith athraidd o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur y datblygiad;**
6. **Hyrwyddo ymagwedd sy'n seiliedig ar leiniau at ddatblygu, sy'n darparu cyfleoedd i ddatblygu'r lleiniau bach, gan gynnwys adeiladwyr pwrpasol ac hunan-adeiladu; a**
7. **Integreiddio seilwaith gwyrdd, wedi'i lywio gan Asesiad o Seilwaith Gwyrdd yr awdurdod cynllunio.**

## Seiliedig ar Natur – Seilwaith Gwyrdd a Glas

7.13 Mae rhwymedigaeth y Cyngor i gyflawni dyletswydd o fioamrywiaeth a dyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy yn golygu bod seilwaith gwyrdd a glas yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw gynigion datblygu a rhaid bod yn elfen hanfodol o'u cynllunio. Rhaid i'r Cyngor gynnal a gwella seilwaith gwyrdd a glas yn ei benderfyniadau a bydd yn rhaid i'r 2RLDP sicrhau bod gwella seilwaith gwyrdd a glas wrth wraidd y cynllun. O ganlyniad, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu'r polisi trosfwaol y caiff polisïau manwl eu cyflwyno ar ei sail drwy'r 2RLDP Adnau i gyflawni dyletswyddau'r Cyngor. Felly, bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddangos bod cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd a glas wedi cael eu mwyafu fel rhan o unrhyw gynigion datblygu a bod eu gwaith datblygu'n darparu Budd Net i Fioamrywiaeth.

# Polisi PS8: Seilwaith Gwyrdd a Glas

**PS8 Rhaid i'r holl gynigion amddiffyn, cynnal a gwella asedau gwella seilwaith gwyrdd a glas drwy hyrwyddo'r swyddogaethau allweddol canlynol:**

1. **Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau;**
2. **Tirwedd ac Ansawdd Lles;**
3. **Darpariaeth Mannau Gwyrdd;**
4. **Cysylltedd;**

**5. Rheolwr dŵr a gwreiddio egwyddorion SuDS yng nghynigion datblygu o'r cychwyn.**

7.14 Cyflogaeth yw'r prif fater y bydd yn rhaid i'r 2RLDP fynd i'r afael ag ef i gyflwyno'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig, sy'n seiliedig ar y Fwrdeistref Sirol yn cyflawni twf yn y boblogaeth ac, yn benodol, y boblogaeth economaidd, er mwyn bod mewn sefyllfa i i sicrhau twf cyflogaeth yn unol â dyheadau CCR a rhanbarthol. I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r 2RLDP nodi tir ar gyfer datblygu cyflogaeth a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phwysau economaidd sydd wedi deillio o effeithiau Covid-19, Brexit a newidiadau naturiol yn yr economi y disgwylir iddynt gael effaith andwyol ar sector cyflogaeth mwyaf y Fwrdeistref Sirol, sef gweithgynhyrchu. Yn ogystal, bydd yr 2RLDP hefyd yn ceisio ehangu a gwella canol y dref a chynnig i ymwelwyr i gynorthwyo wrth greu twf economaidd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

# Polisi PS9: Rheoli Twf Cyflogaeth

**PS9 Caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer 44.5 hectar o dir i'w nodi at ddiben cyflogaeth er mwyn bodloni gofynion cyflogaeth cyfnod y cynllun. Caiff y ddarpariaeth ei bodloni o safleoedd presennol a newydd sy'n cyd-fynd a'r strategaeth.**

7.15 Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol, ac mae buddsoddiad sylweddol wedi'i gynllunio i wella'r cynnig i dwristiaid yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gweithgareddau adfywio'n canolbwyntio ar wella twristiaeth yn gyffredinol, ynghyd ag ehangu ac annog gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a datblygu llety i ymwelwyr. Elfen allweddol o gyflwyno cynnig gwell i ymwelwyr yw cynyddu hygyrchedd drwy gludiant cynaliadwy, gan gynnwys gwelliannau i'r Metro a gwelliannau llesol lleol sy'n cysylltu asedau twristaidd.

# Polisi PS10: Rheoli Twf Twristiaeth

**PS10 Bydd y Cyngor yn ceisio ehangu a gwella potensial twristiaid y Fwrdeistref Sirol drwy:**

**1. Nodi tir priodol ar gyfer defnydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth**

**2. Hyrwyddo datblygiad llety i ymwelwyr yn y lleoliadau priodol**

**3. Gwella mynediad i atyniadau twristaidd drwy gludiant cynaliadwy a theithio llesol**

**4. Amddiffyn a gwella asedau naturiol a hanesyddol y Fwrdeistref Sirol sy'n rhoi hunaniaeth unigryw'r Fwrdeistref Sirol iddi**

## Tai

7.16 Mae'n hanfodol bod yr 2RLDP yn darparu tai digonol, o'r math, maint a fforddiadwyedd priodol a'r lleoedd iawn i'w gwneud hi'n bosib i'r Fwrdeistref Sirol ddenu a chynnal y lefel o dwf poblogaeth a fydd yn cefnogi ac yn gwireddu uchelgeisiol y cynllun.

7.17 Rhaid i'r 2RLDP ddarparu tir preswyl digonol i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy a marchnad y cymunedau yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cefnogi gofyniad tai o 6,750 annedd dros gyfnod y cynllun, neu 450 annedd y flwyddyn, yn seiliedig ar senario twf poblogaeth oedran gweithio Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Dyma senario a arweinir gan anheddau a fyddai'n cefnogi twf yn y boblogaeth o oedran gweithio ar lefel a fyddai'n cyd-fynd ag uchelgeisiau twf economaidd Prifddinas-ranbarth Caerdydd a fyddai'n gofyn am lefel o dai sy'n realistig ond yn uchelgeisiol mewn perthynas â thueddiadau'r gorffennol, yn cyd-fynd â thwf rhanbarthol posibl, gan atgyfnerthu safle

Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol a chynorthwyo cyflawniad tai fforddiadwy. Mae'r Papur Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai yn darparu asesiad mwy manwl o'r senarios sy'n cael eu hystyried a'r cyfiawnhad fel yr opsiwn twf a ffefrir.

7.18 Fel sy'n ofynnol yn ôl y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3), ychwanegwyd lwfans o 10% i'r gofyniad tai i ganiatáu dewis a hyblygrwydd, oherwydd gallai fod amgylchiadau anrhagweladwy sy'n effeithio ar gyflawni dyraniadau tai. Gallai'r lwfans hyblygrwydd hwn fod yn destun newid yn yr 2RLDP Adnau yn dilyn dyraniad safleoedd yn unol â'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.

7.19 Caiff y ddarpariaeth o 7,425 o anheddiadau eu cyflawni gan nifer o gydrannau yn y Cyflenwad Tir Tai, fel a amlinellwyd yn Nhabl 3 isod. Mae gwybodaeth fanwl am sut y mae pob un o'r cydrannau wedi'u canfod yn y Papur Sylfaen Tystiolaeth Targed Cyflenwad Tir Tai a Thai Fforddiadwy.

- Cyfanswm yr unedau a gwblhawyd: Unedau mawr a bach a gwblhawyd yn 2021-2024 – 1,378
- Unedau sy'n cael eu hadeiladu: Ar ddyddiad sylfaen 1 Ebrill 2021 - 198
- Unedau â chaniatâd cynllunio: Dim ond y safleoedd hynny sy'n cael eu hystyried fel rhai y gellir eu cyflawni yng nghyfnod y cynllun (safleoedd mawr yn unig) - 1,541
- Ceisiadau sy'n aros am benderfyniad: Dim ond y safleoedd hynny sy'n dderbyniol mewn egwyddor (safleoedd mawr yn unig) - 359
- Safleoedd annisgwyl mawr: Yn seiliedig ar 73 uned y flwyddyn ar gyfartaledd dros 10 mlynedd ddiwethaf cyfnod y cynllun - 511
- Safleoedd annisgwyl bach: Yn seiliedig ar 60 uned y flwyddyn dros 14 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun - 660
- Cyfanswm - 4,647
- Gofyniad Tai - 6,750
- Darpariaeth Tai: Gofyniad Tai ynghyd â Lwfans Hyblygrwydd (10%) - 7,425
- Dyraniadau newydd sy'n ofynnol: (Darpariaeth Tai – Cyfanswm) - 2,778

7.20 Bydd yr 2RLDP Adnau yn cynnwys llwybr tai, a fydd yn amlinellu'r cyfraddau cyflawni tai disgwyliedig dros gyfnod y cynllun. Bydd hwn yn sail ar gyfer monitro cyflawniad y cydrannau o gyflenwad tai yn erbyn targedau yn y dyfodol.

# Polisi PS11: Rheoli Twf Tai

**PS11 Caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer tir i'w neilltuo i gynnig lle ar gyfer cyfanswm o 7,425 annedd i fodloni gofyniad tai am 6,750 annedd ar gyfer cyfnod y cynllun, gan gynnwys lwfans hyblygrwydd priodol.**

7.21 Nod y Cyngor yw sicrhau bod gan bawb yn y Fwrdeistref Sirol fynediad at gartref o safon sy'n bodloni gofynion tai a darparu amrywiaeth o dai sy'n fforddiadwy i'r boblogaeth leol yn hollbwysig wrth gyflawni hyn. Mae diffyg tai fforddiadwy yn broblem sylweddol sy'n wynebu preswylwyr yn y Fwrdeistref Sirol. Yn wir, mae Asesiad y Farchnad Dai Leol 2018 (LHMA) yn nodi bod diffyg o 282 o unedau fforddiadwy y flwyddyn ar gyfer cyfnod o bum mlynedd 2018-2023. Mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiad o'r Farchnad Tai Leol newydd sy'n cynnwys y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2028. Mae hwn wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Pan gaiff ei gymeradwyo bydd yr

Asesiad o’r Farchnad Tai Leol newydd yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru gyda'r wybodaeth hon fel rhan o baratoi'r Cynllun Adneuo.

7.22 Mae’r targed o leiaf 1,360 o anheddau fforddiadwy yn cyfleu nifer yr unedau y disgwylir gallu eu cyflwyno ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy ddefnyddio rhwymedigaethau ac amodau cynllunio. Mae’r cydrannau sy’n cyfrannu at y targed tai fforddiadwy wedi’u crynhoi yn Nhabl 4 isod. Mae manylion pellach yn y Papur Sylfaen Tystiolaeth Cyflenwad Tir Tai a Thai Fforddiadwy.

- Cyfanswm o unedau a gwblhawyd (hyd at 31 Mawrth 2021): 75;
- Unedau sy’n cael eu hadeiladu: 47;
- Unedau â chaniatâd cynllunio: 387;
- Ceisiadau sy’n aros am benderfyniad: 41;
- Cyfraniad posib o ddyraniadau eraill: 652;
- Cyfraniadau posib o safleoedd annisgwyl: 158;
- Cyfanswm: 1,360.

7.23 Caiff polisi sy’n amlinellu trothwyon meintiau mawr iawn a thargedau ardaloedd penodol yn seiliedig ar asesiad cadarn o ddichonoldeb ei gynnwys yn yr 2RLDP Adnau yn dilyn cwblhau diweddariad o’r Asesiad Dichonoldeb Tai Fforddiadwy. Caiff yr 2RLDP Adnau ei gefnogi hefyd gan LHMA wedi’i ddiweddaru sy’n adlewyrchu newidiadau diweddar i fethodoleg yr LHMA.

# Polisi PS12: Targed Tai Fforddiadwy

**PS12 Bydd y Cyngor yn anelu i gyflawni o leiaf 1,360 o anheddau fforddiadwy drwy’r system gynllunio yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2035 er mwyn cyfrannu at gymunedau cytbwys a chynaliadwy**

7.24 Dylid nodi bod y targed hwn yn seiliedig ar dargedau tai fforddiadwy ardal benodol dichonoldeb a fabwysiadwyd yn y CDLl a gallant newid yn dilyn cwblhau gwaith dichonoldeb manwl a chanlyniadau’r broses asesu safleoedd ymgeisiol a chwblhau'r LHMA newydd.

## Trafnidiaeth gynaliadwy

7.25 Mae symud tuag at foddau cynaliadwy o gludiant yn hanfodol er mwyn mynd i’r afael â phroblemau newid yn yr hinsawdd, tagfeydd ac ansawdd aer. Er mwyn mwyafu’r cyfleoedd hyn, bydd yn rhaid i’r holl gynigion datblygu ddangos y cydymffurfiwyd wrth yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.

# Polisi PS14: Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy

**PS13 Rhaid i’r holl gynigion ddangos bod hygyrchedd a symudiad yn seiliedig ar ddilyn hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel rhan hanfodol o ddyluniad y datblygiad a gynigwyd:**

1. **Cerdded**
2. **Beicio**
3. **Trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy**
4. **Cerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn**
5. **Cerbydau eraill**

7.26 Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021, yn gosod targed uchelgeisiol o 45% ar yr holl deithiau i'w gwneud drwy ffyrdd cynaliadwy erbyn 2045. I fod o fewn unrhyw gyrraedd o gyflawni'r nod hon, mae'n hanfodol bod cynlluniau datblygu yn cynnwys polisïau uchelgeisiol sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae diffyg gwybodaeth sy'n hygyrch i lywio ble'r ydym ni ar hyn o bryd a pha mor bell i lawr yr heol rydym ni tuag at newid moddol. O ganlyniad, nid yw'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cynnwys targed sy'n seiliedig ar Fwrdeistref Sirol benodol. Yn hytrach, mae'n ceisio cyflawni newid yn unol â thargedau cenedlaethol.

# Polisi PS14: Newid Moddol

**PS14 Bydd y Cyngor yn annog ac yn cefnogi cynigion a fydd yn hyrwyddo newid moddol i helpu wrth gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 45% o deithiau drwy foddau cynaliadwy erbyn 2040**

7.27 Mae angen gwelliannau i'r system drafnidiaeth, ar gyfer moddau cynaliadwy ac mewn perthynas â'r isadeiledd priffyrdd presennol, er mwyn galluogi cyflawni lefelau arfaethedig o dwf y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig. Er bod y Strategaeth yn canolbwyntio ar gludiant cynaliadwy ac yn ceisio lleoli datblygiad sy'n agos i ganolfannau trafnidiaeth a gwasanaethau, bydd angen gwelliant i'r isadeiledd trafnidiaeth er mwyn sicrhau hygyrchedd. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith presennol o briffyrdd gan fod trafnidiaeth gynaliadwy yn defnyddio'r rhwydwaith o briffyrdd yn ogystal â'r llwybrau ymrwymedig at ddibenion bysus a theithio llesol. O ganlyniad, mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn ceisio gwella isadeiledd trafnidiaeth lle bydd yn cynyddu hygyrchedd ac yn hwyluso trafnidiaeth gynaliadwy.

# Polisi PS15: Gwelliant i Drafnidiaeth

**PS16 Bydd y Cyngor yn cefnogi gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth a fydd yn:**

1. **Gwella system Metro De-ddwyrain Cymru;**
2. **Gwella mynediad i Brif Ganolfannau a Chanolfannau Lleol a chyfleoedd cyflogaeth;**
3. **Gwella darpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy;**
4. **Hyrwyddo ac yn galluogi'r defnydd o gerbydau allyriadau hynod isel drwy ddarparu isadeiledd gwefru;**
5. **Gwella'r rhwydwaith teithio llesol drwy gynyddu mynediad mewn ardaloedd lleol;**
6. **Gwella'r rhwydwaith o briffyrdd strategol lle bydd cynigion yn cynyddu mynediad, yn lliniaru yn erbyn tagfeydd, yn cyfrannu tuag at ddibynadwyedd trafnidiaeth gynaliadwy neu'n gwella cadernid y rhwydwaith o briffyrdd strategol;**
7. **Gwella cyfleusterau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys mesurau parc a fyddai'n cynyddu'r newid moddol;**

7.28 Fel rhan o weithredoedd i wella'r isadeiledd trafnidiaeth, mae'n hanfodol bod yr 2RLDP yn cynyddu cyfleoedd i addasu hen linellau rheilffyrdd ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan gynnwys eu datblygu at ddibenion trafnidiaeth teithwyr. O ganlyniad, mae'n bwysig amddiffyn hen lwybrau rheilffyrdd rhag datblygiad a allai beryglu eu defnydd yn nhrafnidiaeth y dyfodol.

# Polisi PS16: Amddiffyn Hen Linellau Rheilffyrdd

**PS16 Bydd llwybrau'r hen reilffyrdd sydd â'r potensial i fod yn ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn cael eu hamddiffyn, yn enwedig y rhai hynny sy'n hwyluso cerdded, beicio, cargo ar y rheilffyrdd neu symudiadau teithwyr.**

7.29 Mae'r Cyngor yn gwbl gefnogol o unrhyw gynigion sy'n hyrwyddo datblygiad Metro De-ddwyrain Cymru. Yn ogystal, bydd y Cyngor hefyd yn gweithio i gefnogi cynigion sy'n gwneud y rhwydwaith trafnidiaeth presennol yn fwy cadarn ac yn fwy effeithiol ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy. Cydnabyddir y gall gwelliannau trafnidiaeth a llwybrau trafnidiaeth newydd gymryd cyfnod sylweddol o amser i gael eu cyflawni ac, o ganlyniad, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn amddiffyn llwybrau gwelliannau trafnidiaeth strategol rhag datblygu priodol a allai beryglu eu defnydd at ddibenion trafnidiaeth yn y dyfodol.

# Polisi PS17: Amddiffyn Llwybrau Gwella Trafnidiaeth Strategol

**PS17 Bydd y Cyngor yn amddiffyn y llwybrau gwella trafnidiaeth strategol canlynol rhag datblygu amhriodol a bydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynigion i'w rhoi ar waith:**

**PS17.1 Llinell rheilffordd Cwmbargoed (ail-sefydlu gwasanaethau teithwyr)**

**PS17.2 Llinell rheilffordd Caerffili/Machen/Casnewydd (ail-sefydlu gwasanaethau teithwyr)**

7.30 Bydd ail-sefydlu hierarchaeth ffyrdd yn hwyluso'r defnydd effeithiol o'r rhwydwaith priffyrdd drwy sicrhau y caiff traffig ei sianelu i'r llwybrau mwyaf priodol er mwyn cynnal yr amgylchedd, amwynderau ac amodau diogelwch mwyaf priodol. Bydd cynnal rhwydwaith o briffyrdd effeithiol a diogel yn cynorthwyo gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar ffurf bysus, gan gynnal eu hamlder a sicrhau eu bod yn rhedeg yn unol â'r amserlen.

# Polisi PS18: Hierarchaeth Ffyrdd

**PS18 Mae'r hierarchaeth ffyrdd ganlynol wedi'i nodi i sicrhau rhwydwaith priffyrdd diogel ac effeithiol:**

1. **Y Rhwydwaith Priffyrdd Strategol**
2. **Llwybrau Gwledig**
3. **Ffyrdd Dosbarthu**
4. **Ffyrdd Mynediad**

## Manwerthu

7.31 Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn ceisio lleoli datblygiadau'n agos iawn i brif nodau trafnidiaeth gynaliadwy a chanolfannau gwasanaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae manwerthu yn elfen hanfodol o swyddogaethau mae'r prif ganolfannau gwasanaeth yn eu cyflawni ac o ganlyniad, bydd yr hierarchaeth fanwerthu yn dylanwadu ar leoliad twf ar draws y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylid lleoli prif ddatblygiadau manwerthu a'r sector cyhoeddus yn y prif ganolfannau fel ystyriaeth gyntaf. O ganlyniad, mae'n bwysig y caiff swyddogaethau manwerthu'r prif ganolfannau eu hamddiffyn rhag datblygu amhriodol, wrth ganiatáu hyblygrwydd er mwyn i'r canolfannau barhau i ffynnu.

# Polisi PS19: Hierarchaeth Canolfannau Masnachol

**PS19  Mae'r hierarchaeth ganlynol wedi'i nodi ar gyfer canolfannau manwerthu yn y Fwrdeistref Sirol.  Dylai cynigion ar gyfer manwerthu a datblygiadau sylweddol yn y sector cyhoeddus ddefnyddio'r hierarchaeth fanwerthu fel sail i ymagwedd ddilyniannol  at leoli datblygiadau:**

- **Prif Ganolfannau – Bargoed, Coed-duon a Chaerffili;       Canolfannau Trefi – Rhisga, Ponty-meistr, Trecelyn ac Ystrad Mynach**
- **Canolfannau Lleol – Abertridwr, Bedwas, Trelyn, Nelson, Pontlotyn, Rhymni and Thretomos;**
- **Parciau Warws Manwerthu – Porth Coed Duon, Coed Duon a Pharc Manwerthu Gallagher, Caerffili;**
- **Canolfannau Diffiniedig/Cymdogaeth Eraill – Aberbargod, Abercarn, Cefn Fforest, Crymlyn, Cwmcarn, Maes-y-cwmwr, Tredegar Newydd, Oakdale, Senghenydd.**

## Llety i Sipsiwn a Theithwyr

7.32  Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ystyried anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr wrth baratoi cynlluniau datblygu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Asesiad o Lety i Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) a fydd yn llywio'r broses honno. Cymeradwywyd y GTAA diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r GTAA wedi nodi angen am 5 llain breswyl yn y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2026 a 3 llain arall yng ngweddill cyfnod cynllun 2RLDP, gan roi cyfanswm angen o 8 llain tan ddiwedd cyfnod y Cynllun.

7.33  Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno am bedwar llain, sy'n aros am benderfyniad. Os rhoddir caniatâd cynllunio yna bydd y ffigwr angen heb ei ddiwallu yn cael ei leihau.

7.34  Bydd tir yn cael ei nodi ar gyfer unrhyw angen am lety Sipsiwn a Theithwyr sydd heb ei ddiwallu yn y Cynllun Adneuo. Bydd y Cynllun Adneuo hefyd yn cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

# Polisi PS20: Llety i Sipsiwn a Theithwyr

**PS20  Bydd tir yn cael ei neilltuo i ddiwallu angen llety Sipsiwn a Theithwyr o 8 llain preswyl fel y nodwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf.**

7.35  Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor gynnal cyflenwad digonol o fwynau a chadw banc tir o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir drwy gydol cyfnod y cynllun. I wneud hyn, bydd y Cyngor yn amddiffyn adnoddau mwynau, y cronfeydd wrth gefn presennol a seilwaith presennol rhag datblygiad amhriodol ac yn sicrhau y caniatawyd cronfeydd digonol i ddarparu'r gwerth 25 mlynedd a fyddai'n sicrhau isafswm banc tir o 10 mlynedd ar ddiwedd cyfnod y cynllun.

# Polisi PS21: Mwynau

**PS21  Bydd y Cyngor yn cyfrannu at alw am gyflenwad parhaus o fwynau drwy:**

1. **Ddiogelu adnoddau y gwyddys amdanyn nhw o dywod a cherrig mân a cherrig wedi'u malu;**
2. **Cynnal banc tir 10 mlynedd neu fwy o gronfeydd cerrig mân a ganiateir drwy gydol cyfnod y cynllun;**

**3. Annog y defnydd effeithiol a phriodol o fwynau o safon, diogelu seilwaith mwynau a chynyddu'r potensial i ddefnyddio cerrig mân eilaidd ac wedi'u hailgylchu fel opsiwn amgen i adnoddau o dir cynradd.**

## Rheoli Gwastraff

7.36 Gwneir darpariaeth ar gyfer isadeiledd gwastraff dŵr ar lefel isranbarthol ac, felly, nid yw'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer isadeiledd gwastraff. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cynnwys polisïau trosfwaol sy'n hwyluso darpariaeth elfennau o'r hierarchaeth.

# Polisi PS22: Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

**PS22 Er mwyn hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff, bydd y Cynllun yn:**

**1. Sicrhau bod y cynigion yn cydymffurfio ag egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff, gan gefnogi'r rhai hynny sy'n symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth;**

**2. Cefnogi rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau rheoli gwastraff sy'n ystyried y cysyniad gosodiad priodol agosaf ac egwyddorion hunangynhaliaeth lle bo angen;**


**3. Nodi safleoedd diwydiannol Dosbarth B2 neilltuedig ac a amddiffynnir sy'n briodol ar gyfer cynnwys cyfleusterau trin a rheoli gwastraff mewnol, gan ddibynnu ar ystyriaethau cynlluniau manwl;**

**4. Cefnogi'r economi gylchol drwy annog lleihau cynhyrchiant gwastraff a thrwy ddefnyddio deunyddiau sy'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu wrth gynllunio, adeiladu a chwalu datblygiadau; a**

**5. Sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer rheoli, trefnu, storio a chasglu gwastraff yn yr holl ddatblygiadau.**

7.37 Mae Diagram Allweddol y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig isod. Dylid nodi bod y Diagram Allweddol yn gynllun awgrymedig a'i fod yn dangos dyraniadau penodol wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth a Ffefrir yng nghyd-destun y Fwrdeistref Sirol. Nid yw'r diagram ar raddfa benodol nac yn seiliedig ar Sylfaen Map Arolwg Ordnans. O ganlyniad, mae'r dyraniadau a nodwyd arno yn awgrymedig ac nid ydynt yn cyfeirio at safleoedd na llwybrau penodol.

## Diagram Allweddol Cynllun Cyn-Adneuo




# 8 Y Camau Nesaf

8.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad a’r ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir, bydd y Cyngor yn terfynu’r 2RLDP ac yn ei roi ar Adneuo. Caiff adborth o ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir Ddywygiedig ei fanylu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad Cychwynnol ar yr Ail Ymgynghoriad Cyn-Adneuo. Rhaid i'r adroddiad ddod gydag Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yr 2RLDP a dogfennau cefnogi eraill ar Adneuo, yn unol â

Rheoliad 17 o Reoliadau'r CDLl. Caiff yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnoll ei adrodd wrth y Cyngor yn ystod gwanwyn/haf 2025. Yna, caiff y Cynllun Adneuo ei baratoi a'i ystyried gan y Cyngor cyn cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu statudol chwe wythnos ar ddechrau 2026.

8.2 Yn unol â Rheoliad 22 o Reoliadau CDLl. Caiff y Cynllun Adneuo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r 2RLDP. Gan ystyried y dystiolaeth a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad yr Adneuad, rhaid i'r Arolygydd benderfynu a yw'r 2RLDP yn cydymffurfio â'r 'profion cadernid' a amlinellwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

8.3 Yn dilyn yr Archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad sy'n argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r 2RLDP. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo, a bydd yn rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r 2RLDP fel y'i diwygiwyd. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd yr 2RLDP yn disodli'r CDLl a Fabwysiadwyd presennol.

# Atodiad 1: Polisïau Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig – Cydnawsedd Polisi Ehangach

This appendix sets out how the strategic policies of the Pre-Deposit Plan relate to wider issues and considerations, particularly in respect of Future Wales policies and Well-being Objectives and Goals.

**Polisi PS1 Lefel Twf yr 2RLDP**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR2, NR4, NR7, EC2, EC4, EC5, SO1, SO2 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 10, 16, 17, 18, 19, |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 33 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau;<br>Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol;<br>Teithio llesol;<br>Adfywio Canol Trefi |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus;<br>Mwy Cyfartal;<br>Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 1, 2, 3, 5, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS2, PS4 |

**Polisi PS2: Y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig ar gyfer yr 2RLDP**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR5, NR7, EC2, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 4, 8, 9, 10, 14, 16, 17, 18, 21, 22, 23, 24 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8 8, 9, 12, 16, 17, 18,33, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau;<br>Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; Adfywio Canol Trefi; |

| | |
|---|---|
| | Lleoedd Digidol; Newid ymarferion gweithio; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; Gwydn; Mwy Cyfartal; Iachach; Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 1, 2, 3, 4, 5, 6, |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS2, PS4 |

**Polisi PS3: Hierarchaeth Anheddiad**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, EC2, EC5, SO3, SO6, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 4, 8, 9, 11, 13, 14, 19, 22 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 3, 4, 6, 8, 12, 33, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol; Adfywio Canol Trefi; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus;<br>Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 1, 2, 3, 4, 5, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS3 |

**Polisi PS4: Ardaloedd o Dwf**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 2, 4, 8, 9, 10, 11, 14, 16, 22 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 8, 12, 33, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau;<br>Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol; Teithio llesol;<br>Adfywio Canol Trefi; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; Mwy Cyfartal; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 1, 2, 3, 4, 5, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS1, PS2, PS4 |

**Polisi SP5: Newid yn yr Hinsawdd**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, NR6, Ec4, So4, So5, So6, En1, En2, En3, En4, En8 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 9, 10, 11, 14, 19, 21, |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 9, 12, 33, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Gwneud y defnydd gorau o adnoddau; Mwyafu amddiffyniad amgylcheddol a chyfyngu effaith ar yr amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Seilwaith Gwyrdd;  Gwella ansawdd aer; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn;  Yn gyfrifol yn fyd-eang |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 2, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3, 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS2, PS4 |

**Polisi PS6: Creu Ynni Adnewyddadwy**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 6 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 9, 16, 17, 18 |
| Amcanion Creu Lleoedd  Cenedlaethol Cynaliadwy: | Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Seilwaith Gwyrdd;  Gwella ansawdd aer; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn;  Yn gyfrifol yn fyd-eang |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 1, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3, 5 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS14 |

**Polisi PS7:  Egwyddorion Creu Lleoedd**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | S06, CU1, CU2, CU5 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 8, 11, 12, 13, 14, 15, 19, 21, 23, 24, 25 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 4, 6 |
| Amcanion Creu Lleoedd  Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau; Gwneud y defnydd gorau o adnoddau |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol;  Adfywio Canol Trefi;  Teithio llesol;  Isadeiledd Gwyrdd; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Mwy Cyfartal;  Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 2, 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | None at this stage |

**Polisi SP8: Seilwaith Gwyrdd a Glas**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | SO4, EN4, EN5, EN6, EN8, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 2, 3, 4, 11, 12, 13 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 8, 9, 15, 35 |
| Amcanion Creu Lleoedd  Cenedlaethol Cynaliadwy: | Mwyafu amddiffyniad amgylcheddol a chyfyngu effaith ar yr amgylchedd |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Seilwaith Gwyrdd; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 5 |

| | |
|---|---|
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS11 |

**Polisi PS9: Rheoli Twf Cyflogaeth**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EC1, EC2, EC3, EC4, EC5, EC6, EC7, EC8, S03, SO7, CU4 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 7, 8, 9, 14, 17, |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 2, 3, 5, 6, 13,14 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Adfywio Canol Trefi; Lleoedd Digidol; Newid ymarferion gweithio; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; Mwy Cyfartal |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 2, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS15, PS16 |

**Polisi PS10: Rheoli Twf Twristiaeth**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EC6, CU6 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 8, 9, 14, 17, 18 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 2, 3, 5, 35 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau; Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Adfywio twristiaeth a diwylliant; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; Diwylliant Bywiog; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 2, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | None at this stage |

**Polisi PS11: Rheoli Twf Tai**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 8, 9, 10,11 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 7, 12, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol; Teithio llesol; Adfywio Canol Trefi; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS6 |

**Polisi PS12: Targed Tai Fforddiadwy**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, SO7, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 1, 8, 9, 10, 11 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 7 |

| | |
|---|---|
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol; Teithio llesol; Adfywio Canol Trefi; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Mwy Cyfartal; Cymunedau Cydlynus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3, 6 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS6 |

**Polisi PS13: Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR5, EC7, EN1, EN2, EN3, CU3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 9, 10, 11, 14, 15, 19, |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 12, 33, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn; Mwy Cyfartal; Iachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 1, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12 |

**Polisi PS14: Newid Moddol**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR5, EC7, EN1, EN2, EN3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 15, 19 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 12, 13, 14, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn; Mwy Cyfartal; Iachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 1, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12, SD1 |

**Polisi PS15: Gwelliant i Gludiant**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR5, EC7, EN1, EN2, EN3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 15, 19 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 12, 13, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Lachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12 |

**Polisi PS16: Amddiffyn Hen Linellau Rheilffyrdd**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR5, EC7, EN1, EN2, EN3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 15, 19 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 12, 13, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Lachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12 |

**Polisi PS17: Amddiffyn Llwybrau Trafnidiaeth Strategol**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR5, EC7, EN1, EN2, EN3 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 15, 19 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 12, 13, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Lachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12 |

**Polisi PS18: Hierarchaeth Ffyrdd**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EC7, EN1 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 15, 19 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2,12, 36 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Teithio llesol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Lachach; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 4 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS12 |

**Polisi PS19: Hierarchaeth Manwerthu**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EC5, SO3, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 22 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 2, 6, 33 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau; Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Adfywio Canol Trefi; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 2, 3 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS3 |

**Polisi PS20: Llety i Sipsiwn a Theithwyr**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | NR4, NR7, |
| Amcanion yr 2RLDP: | 10 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 1, 7, 33 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Creu a chynnal cymunedau; |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Aros yn lleol; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Mwy Cyfartal; |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 3 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS7 |

**Polisi PS21: Mwynau**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EN9 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 2, 26 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 4, 5, 9 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy; Mwyafu amddiffyniad amgylcheddol a chyfyngu effaith ar yr amgylchedd |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Newid ymarferion gweithio; Seilwaith Gwyrdd; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Ffyniannus; Gwydn; Yn gyfrifol yn fyd-eang |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 3, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 2, 5 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | SD3 |

**Polisi PS22: Rheoli Gwastraff Cynaliadwy**

| | |
|---|---|
| Materion Allweddol yr 2RLDP: | EN7 |
| Amcanion yr 2RLDP: | 7 |
| Polisïau Cymru'r Dyfodol: | 9 |
| Amcanion Creu Lleoedd Cenedlaethol Cynaliadwy: | Gwneud y defnydd gorau o adnoddau |
| Materion Adeiladu Lleoedd Gwell: | Newid ymarferion gweithio; Seilwaith Gwyrdd; |
| Nodau'r Ddeddf Llesiant: | Gwydn; Yn gyfrifol yn fyd-eang |
| Amcanion y Cynllun Llesiant: | 1, 4 |
| Amcanion y Cynllun: | 2, 5 |
| Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth: | PS18 |

# Atodiad 2: Sylfaen Tystiolaeth a Dogfennau Cefnogi ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig

## Dogfennau Sail Tystiolaeth y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig

EB1: Asesiad o Opsiynau Strategaeth - Dogfen sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n amlinellu chwe opsiwn strategaeth a sut mae'r Strategaeth a Ffefrir yn deillio o ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

EB2: Ymgyslltiad Cyn-Adneuo - Archwiliad o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd i lywio gwaith paratoi'r Strategaeth a Ffefrir.

EB3: Rôl, Swyddogaeth a Dadansoddiad o Gynaliadwyedd Anheddiad - Yn nodi'r hierarchaeth anheddiad ar gyfer y Fwrdeistref Sirol drwy ddadansoddi rôl a swyddogaeth pob anheddiad, a'u cynaliadwyedd yn seiliedig ar fynediad i wasanaethau a thrafnidiaeth gynaliadwyedd.

EB4: Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai - Dogfen sylfaen tystiolaeth sy'n amlinellu'r opsiynau twf ar gyfer yr 2RLDP.

EB5: Cyflenwad Tir Tai a Tharged Targed Tai Fforddiadwy - Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth sy'n cyfiawnhau brasamcangyfrifiadau a thybiaethau cyflenwad tir tai ar gyfer targed tai fforddiadwy.

EB6: Asesiad o'r Farchnad Tai Leol - Asesiad o angen tai fforddiadwy fesul math o ddeiliadaeth, ward ac ardal marchnad tai. Wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn 2018.

EB7: Asesiad o Lety i Sipsiwn a Theithwyr - Asesiad o ragolwg gofynion Sipsiwn a Theithwyr.

EB8: Methodoleg Safle Ymgeisiol - Esboniad o sut y caiff safleoedd ymgeisiol eu hasesu.Eisoes wedi'i gyhoeddi ar wefan CBSC.

EB9: Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol - Cofrestr o'r holl safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r galwad am safleoedd ymgeisiol a gyhoeddwyd rhwng mis Mehefin a mis Awst 2021. Mae'r gofrestr yn darparu manylion sylfaenol a map o bob safle a gyflwynwyd.

EB10: Crynodeb o Asesiad o Safle Ymgeisiol - Crynodeb o'r sgorio ar bob dale ymgeisol a gyflwynwyd.

EB11: Papur Sylfaen Tystiolaeth Trafnidiaeth - Crynodeb o'r dystiolaeth cefndir berthnasol mewn perthynas â thrafnidiaeth ac asesiad o ystyriaethau a phenderfyniadau am faterion trafnidiaeth.

EB12: Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol – Drafft Cam 1, Adroddiad - Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol sy'n darparu trosolwg strategol i lywio'r broses o ddynodi safleoedd yn y Cynllun Adneuo.

EB13: Asesiad o Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Asesiad o gyfleoedd creu ynni carbon isel ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

EB14: Papur Tystiolaeth Cefndir Cyflogaeth - Dogfen sylfaen tystiolaeth yn nodi'r dystiolaeth gefndir mewn perthynas â chyflogaeth ac yn nodi sut mae'r dystiolaeth dechnegol wedi'i throsi i'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.

EB15: Astudiaeth sy'n Fwy nag Astudiaeth Cyflogaeth Leol - Mae hon yn creu'r elfen isranbarthol o'r sylfaen tystiolaeth mewn perthynas â llunio polisi sy'n gysylltiedig â datblygiad dosbarth B a darpariaeth tir. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) isod yn datblygu'r gwaith hwn i gynnig argymhellion mwy manwl sy'n berthnasol yn lleol.

EB16: Adolygiad o Dir Cyflogaeth - Mae hon yn creu'r elfen leol o'r sylfaen tystiolaeth mewn perthynas â llunio polisi sy'n gysylltiedig â datblygiad dosbarth B a darpariaeth tir. Mae'n cynnwys asesiad o'r farchnad eiddo yng nghyd-destun proffil economaidd-gymdeithasol y Fwrdeistref ac yn nodi sectorau sy'n ehangu/lleihau; archwiliad/asesiad o safleoedd cyflogaeth; a chyfrifiad o ofynion tir y dyfodol.

EB17: Astudiaeth o Gapasiti Manwerthu - Mae hyn yn creu sylfaen tystiolaeth leol mewn perthynas â manwerthu a chanol trefi. Mae hyn yn cynnwys 'gwiriad iechyd' o ganolfannau'r Fwrdeistref; asesiadau o angen manwerthu ansoddol a meintiol; asesiadau o botensial ar gyfer y defnydd ychwanegol o ganol y dref; a goblygiadau ar gyfer canolau o ran rhagolygon lle llawr a hierarchaeth canol y dref.

EB20: Asesiad Seilwaith Gwyrdd - Crynodeb o'r dystiolaeth gefndir berthnasol ac argymhellion polisi mewn perthynas ag asedau seilwaith gwyrdd a glas y Fwrdeistref Sirol.

EB21: Asesiad Rhanbarthol o Dwf ac Ymfudo yn y Dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. - Asesiad rhanbarthol o'r sgôp posibl ar gyfer twf poblogaeth a chyflogaeth ar gyfer y rhanbarth mewn perthynas â hynny â lefelau twf perthnasol ar gyfer pob un o'r awdurdodau cyfansoddol.

## Dogfennau Cefnogi

SD1: Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 - Mae hon yn amlinellu polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys targedau ar gyfer newid moddol

SD2: Sylfaen ar gyfer Llwyddiant - Dyma Strategaeth Adfywio'r Cyngor sy'n amlinellu blaenoriaethau Adfywio i adfywio'r Fwrdeistref Sirol.

SD3: Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregol Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru - Ail Adolygiad - Asesiad o'r galw am fwynau ac agregau yn y dyfodol ac yn dosrannu'r galw i ardaloedd isranbarthol ac awdurdod lleol.

# Atodiad 3: Geirfa Termau

Ail Gynllun Cyn-Adneuo: Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd 2020-2035: Cynllun Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig)

2RLDP: Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

Deddf Teithio Llesol: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

ATNM: Map Rhwydwaith Teithio Llesol

BGC Caerffili: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili

CBS Caerffili:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

CCR: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

CJC: Cyd-bwyllgor Corfforaethol

Cynllun Corfforaethol: Amcanion Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer 2023-2028

DA: Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035: Cytundeb Cyflawni

Deddf yr Amgylchedd: Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

Cymru'r Dyfodol: Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040

GTAA:  Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

PSB Gwent:  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Strategaeth Tai:  Strategaeth Tai:   Agenda dros Newid 2021-2026

HoVRA:  Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

ISA:  Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig

CDLl:  Cynllun Datblygu Lleol

Rheoliadau'r CDLl:  Rheoliadau Cynllunio Tref a Sir (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015 (fel a ddiwygiwyd)

LHMA:  Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

NCC:  Coridor Cysylltiadau'r Gogledd

NDF:  Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

CNC:  Cyfoeth Naturiol Cymru

Deddf Gynllunio:  Deddf Gynllunio (Cymru) 2015

PCC:  Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12

Strategaeth a Ffefrir:  Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd 2020-2035:   Cynllun Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir)

PSB:  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Strategaeth Adfywio:  Sylfaen ar gyfer Llwyddiant 2018-2023

Adroddiad Adolygu:  Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili Tan 2021: Adroddiad Adolygu

Cytundeb Cyflenwi diwygiedig:  Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035:   Cytundeb Cyflenwi diwygiedig

Y Strategaeth Ddiwygiedig a Ffafrir: Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd hyd at 2020- 2035: Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth Ddiwygiedig a Ffefrir)

RTP:  Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

SCC:  Coridor Cysylltiadau'r De

Adroddiad Cwmpasu:  Adroddiad Cwmpasu Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig

SDP:  Cynllun Datblygu Strategol

Metro DddC:  Metro De-ddwyrain Cymru

CSCDddC:  Cymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru

SEWSPG:  Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru

TfW:  Trafnidiaeth Cymru

Deddf Llesiant:  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynllun Llesiant:  Cynllun Llesiant Gwent Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent 2023-2028